WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 112A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Stephen Martin, Karen Lees a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Er gwaetha'r cynnydd mewn sawl maes gwasanaeth, mae gwendidau corfforaethol penodol yn parhau i lesteirio perfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer y dyfodol 8

Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi gwelliant; fodd bynnag mae'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor yn cael ei lesteirio gan wendidau o ran pennu blaenoriaethau, llywodraethu, cynllunio ariannol a rheoli pobl 9

Mae cynnydd da mewn rhai meysydd â blaenoriaeth ond mewn mannau eraill mae'n gymysg ac nid yw rhai gwasanaethau yn darparu ar y lefelau disgwyliedig eto 25

Mae cynnydd cymysg o ran rhoi gwell cymorth i bobl mewn angen ond mae datblygiadau mawr ar y gweill o ran gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol i oedolion 25

Mae perfformiad disgyblion islaw'r lefelau disgwyliedig mewn rhai agweddau ar addysg tra bod safonau a rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn dda. Gwelir datblygiadau mawr mewn gwasanaethau hamdden a chwarae ond erys risgiau 30

Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ac yn cyflawni gwelliannau er mwyn helpu i greu a chynnal sir ddiogel, ffyniannus a hyfryd 35

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei drefniadau monitro perfformiad ond erys gwendidau o ran mesur canlyniadau, dibynadwyedd gwybodaeth ac mewn rhai agweddau ar adrodd a gwerthuso 38

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 43

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint 44

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir y Fflint 46

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint 49

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau perthnasol Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tair prif adran i'r adroddiad sy'n cwmpasu'r gwaith o gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant gan Gyngor Sir y Fflint (y Cyngor).

2 Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, gosododd y Cyngor amcanion gwella iddo'i hun sy'n cynnwys gwneud cymunedau'n ddiogel, diogelu'r economi leol a darparu gofal cymdeithasol, tai a chyfleoedd dysgu o ansawdd uchel yn ogystal â gwella trefniadau cydweithio, effeithlonrwydd a rheoli staff.

3 Yn gyffredinol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad, er gwaetha'r cynnydd mewn sawl maes gwasanaeth, fod gwendidau corfforaethol penodol yn parhau i lesteirio perfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

4 Gwnaethom nodi fod gan y Cyngor ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi gwelliant; fodd bynnag, mae cynnydd o ran cyflawni amcanion y Cyngor yn cael ei atal gan gwendidau o ran pennu blaenoriaethau, llywodraethu, cynllunio ariannol a rheoli pobl.

5 Gwnaethom hefyd nodi fod cynnydd da mewn rhai meysydd â blaenoriaeth ond mewn mannau eraill mae'n gymysg ac nid yw rhai gwasanaethau yn darparu ar y lefelau disgwyliedig eto. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- Mae cynnydd cymysg o ran rhoi gwell cymorth i bobl mewn angen ond mae datblygiadau mawr ar y gweill o ran gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol i oedolion.
- Mae perfformiad disgyblion islaw'r lefelau disgwyliedig mewn rhai agweddau ar addysg tra bod safonau a rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn dda. Gwelir datblygiadau mawr mewn gwasanaethau hamdden a chwarae ond erys risgiau.
- Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ac yn cyflawni gwelliannau er mwyn helpu i greu a chynnal sir ddiogel, ffyniannus a hyfryd.

6 Yn olaf, mae'r adroddiad yn rhoi ein barn ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei drefniadau monitro perfformiad ond erys gwendidau o ran mesur canlyniadau, dibynadwyedd gwybodaeth ac mewn rhai agweddau ar adrodd a gwerthuso.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu na fydd yn argymell unrhyw gamau ymyrryd gan Weinidogion Cymru nac yn cynnal arolygiad arbennig. Fodd bynnag, gwneir dau argymhelliad ffurfiol a chynigion eraill ar gyfer gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cynnig y dylid cynnal asesiad corfforaethol llawn yn ystod 2012-13. Gwnaed argymhellion hefyd gan Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn dilyn ei harolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol a'i harolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 19 oed yn yr ardal (gweler paragraffau 133 a 137).

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Cyngor adrodd yn fwy manwl a rheolaidd ar hynt y strategaeth Adnoddau Dynol a'r *Cytundeb Statws Sengl* i'r Bwrdd Gweithredol ynghyd â sicrhau bod gallu ac adnoddau ar gael i gyflawni'r canlyniadau a'r amserlenni bwriadedig.* |
| **A2** | Mae angen i'r Cyngor gwblhau'r gwaith o fesur buddiannau ariannol ei raglen o arbedion effeithlonrwydd a newid sefydliadol erbyn canol 2012-13, er mwyn canfod y bwlch ariannu sydd ar ôl (diffyg neu warged) ac yna lunio cynlluniau clir i nodi arbedion pellach a/neu ailgyfeirio adnoddau i flaenoriaethau.* |

* Mae'r argymhellion hyn yn dilyn y cynigion ar gyfer gwella a wnaed ym mis Awst 2010 a mis Awst 2011.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **Er mwyn cefnogi gwelliannau pellach, dylai'r Cyngor:** | |
| **C1** | Cwblhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i osod mesurau llwyddiant clir ar gyfer pob amcan gwella a sicrhau y cyflwynir adroddiadau clir a rheolaidd.* |
| **C2** | Llunio a chytuno ar gynllun busnes manwl ar gyfer gwella mynediad cwsmeriaid gan ddangos sut y cyflawnir mesurau llwyddiant a chynnig gwerth am arian. |
| **C3** | Sicrhau bod ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref yn unol â gofynion statudol a'i fod yn adlewyrchu canllaw Llywodraeth Cymru yn llawn. |
| **C4** | Gwella trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y data a ddefnyddir i gefnogi gwaith rheoli a monitro perfformiad yn gywir ac yn gadarn. |

*Cafodd y cynnig hwn ar gyfer gwella ei gyflwyno i'r Cyngor gyntaf ym mis Ionawr 2011.

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

8 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

9 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ystyried hunanasesiad y Cyngor ei hun.

10 Ym mhob rhan o'r adroddiad, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

11 Hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Er gwaetha'r cynnydd mewn sawl maes gwasanaeth, mae gwendidau corfforaethol penodol yn parhau i lesteirio perfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer y dyfodol

12 Mabwysiadodd Bwrdd Gweithredol y Cyngor 40 o flaenoriaethau ym mis Mai 2010. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ategu pum thema Gweledigaeth y Sir, a gymeradwywyd yn flaenorol gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint (y Bwrdd Gwasanaethau Lleol). Roedd y set o flaenoriaethau'n cynnwys 10 o flaenoriaethau llywodraethu corfforaethol a pherfformiad a 30 o flaenoriaethau gwasanaeth. Yn dilyn hynny, cafodd y 40 o flaenoriaethau eu grwpio o dan 10 amcan gwella a'u cynnwys yng *Nghynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12*. Mae'r holl flaenoriaethau ac amcanion ar gyfer gwella ar gael yn Atodiad 4.

13 Rhydd yr adroddiad hwn asesiad o berfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi eu pennu iddo'i hun ynghyd â rhai materion allweddol eraill. Mae'r Cyngor bellach wedi grwpio'r 40 o flaenoriaethau cychwynnol o dan 10 amcan gwella ac adroddwn ar lefel yr amcanion gwella yn bennaf. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar adborth ac adroddiadau cynharach a roddwyd i'r Cyngor ac mae'r casgliadau yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a'r wybodaeth a rennir gennym ynghyd â chanfyddiadau o waith a wnaed eleni.

14 Mae'n bwysig bod gan gynghorau hunanddealltwriaeth dda o ba mor effeithiol ydynt a faint o gynnydd a gwelliant y maent yn ei wneud. Mae'r Archwilydd Cyffredinol, arolygiaethau eraill, Llywodraeth Cymru a chynghorau yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o brosesau hunanwerthuso effeithiol a fydd o gymorth i waith asesu yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud rhai sylwadau cychwynnol ar brosesau hunanwerthuso yn y Cyngor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Gwnaethom nodi fod y Cyngor yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu ei drefniadau ar gyfer hunanasesu a chyflwyno adroddiadau ar ei amcanion gwella, ac mae hyn i'w ganmol, ond erys gwendidau. Drwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeiriwn at wybodaeth ac asesiadau'r Cyngor ei hun lle y maent ar gael. Er mwyn cyfrannu at ei hunanddealltwriaeth, gwahoddwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) gan y Cyngor i gynnal *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* a wnaed ym mis Ionawr 2011. Cyfeiriwn at ganfyddiadau'r adolygiad yn yr adrannau perthnasol.

## Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi gwelliant; fodd bynnag mae'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor yn cael ei lesteirio gan wendidau o ran pennu blaenoriaethau, llywodraethu, cynllunio ariannol a rheoli pobl

15 Mae'r adran hon yn sôn am waith cynllunio'r Cyngor a'i drefniadau i gyflawni gwelliannau. Mae'n cynnwys trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ynghyd â'i amcanion. Mae'r adran hon yn cwmpasu'r canlynol:

- canfyddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau gwella a hynt cynigion gwella;
- systemau llywodraethu gan gynnwys trefniadau gwneud penderfyniadau a chraffu;
- y fframwaith o amcanion a blaenoriaethau gwella;
- adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu;
- trefniadau i gydweithio â chynghorau a chyrff eraill a gweithio mewn partneriaeth â hwy;
- y defnydd o adnoddau a threfniadau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir gan bob cyngor;
- trefniadau'r Cyngor i fodloni gofynion *Deddf Cydraddoldeb* 2010 a chefnogi'r Gymraeg;
- sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol.

16 Mae amcanion llywodraethu corfforaethol a gwella perfformiad y Cyngor fel a ganlyn:

- bod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost effeithiol drwy ein pedair strategaeth adnoddau - y *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig*, *y Strategaeth Pobl*, y strategaeth rheoli asedau a'r Strategaeth TGCh - a sicrhau ar yr un pryd fod ein trethi a'n ffioedd a'n taliadau lleol yn deg ac yn fforddiadwy;
- cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd gorau posibl o ran cost drwy gydweithio'n rhanbarthol i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol;
- bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg gyda chyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth teg a chyfartal o dan *Gytundeb Statws Sengl*;
- cyflawni'r safonau uchaf o ran gwasanaeth a gofal i gwsmeriaid drwy ein strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid.

### Ym mis Awst 2011, adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Cyngor Sir y Fflint yn parhau i hyrwyddo gwelliant, ond nid yw rhai trefniadau wedi'u datblygu'n llawn ac maent yn debygol o lesteirio'r Cyngor wrth iddo geisio cyflawni ei amcanion

17 Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor ym mis Awst 2011. Dywedodd ei fod yn fodlon bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur, a bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion sylfaenol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol i gyflawni'r rhaglen newid a gwella helaeth iawn a bennodd iddo'i hun. Dywedodd y llythyr fod y Cyngor yn parhau i hyrwyddo gwelliant ond nid yw rhai trefniadau wedi'u datblygu'n llawn ac maent yn debygol o lesteirio'r Cyngor wrth iddo geisio cyflawni ei amcanion. Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar ein canfyddiadau sef:

- Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* a'r *Adroddiad Gwella Blynyddol*.

- Mae rheoli'r her ariannol drwy raglenni arbedion a phrosiectau trawsnewid tra'n gallu cyflawni ei amcanion gwella yn agenda heriol i'r Cyngor. Bydd angen iddo barhau i atgyfnerthu ei drefniadau a'i gynlluniau er mwyn cyflawni'r agenda hon.
- Er bod rhai enghreifftiau cadarnhaol o waith ymgynghori, nid yw dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dilyn methodoleg gydlynol. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio gwerthusiadau o ymgynghoriadau yn gyson i wella effeithiolrwydd prosesau darparu gwasanaethau.
- Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu cyfleoedd i ehangu'r cydweithio â phartneriaid fel dull o wella gwasanaethau ymhellach.

## Gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu'r fframwaith cynllunio gwelliannau, ond nid oes gan bob amcan fesurau llwyddiant clir sy'n seiliedig ar ganlyniadau

18 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set glir o amcanion gwella. Fel y nodwyd uchod, cafodd blaenoriaethau'r weinyddiaeth, 40 i gyd, eu mabwysiadu ym mis Mai 2010, ac ym mis Mehefin 2011, cymeradwyodd y Cyngor ei *Gynllun Gwella 2011-12*. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys 10 amcan gwella a blaenoriaethau ar gyfer cyfarwyddiaethau a gwasanaethau corfforaethol. Mae'r amcanion a'r cynllun gwella yn bodloni'r cynnig a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol sef y dylai'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau a'u mabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r amcanion a'r cynllun yn cyflawni dyletswyddau'r Cyngor o dan y Mesur.

19 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu a gwella ei fframwaith gwella:

- mae'r cynllun gwella yn nodi amcanion cyffredinol y cyngor a'r camau sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r amcanion;
- mae gan y Cyngor hefyd set o dargedau gwella perfformiad ar gyfer dangosyddion sy'n bwysig i'r Cyngor a lle mae angen perfformio'n well;
- gwnaed rhywfaint o waith hefyd i ddyrannu atebolrwydd am yr amcanion gwella.

20 Mae gan y Cyngor ragor o waith i'w wneud o hyd i gwblhau'r ymateb i gynnig yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cyngor gadarnhau bod trefniadau arwain ac atebolrwydd clir, mesurau llwyddiant, a phrosesau adrodd ar gynnydd yn erbyn ei holl flaenoriaethau. Mae'r gwaith pellach hwn yn cynnwys:

- Diffinio mesurau clir o ran canlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu a mesurau proses, ar gyfer rhai o'r amcanion.
- Ymgorffori trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd y Cynllun Gwella oherwydd, hebddynt, nid yw cynghorwyr na swyddogion yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r cynllun. Mae cynghorwyr wedi cael yr adroddiad cyntaf ar gynnydd yn mis Ionawr 2012.
- Cwblhau'r trefniadau atebolrwydd ar lefel cyfarwyddwyr a lefel cynghorwyr.

21 Mater i'r Cyngor yw pennu ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, gan fod blaenoriaethau dewisol y Cyngor yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'i weithgareddau, efallai na fyddant yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch y defnydd o adnoddau. Wrth lunio ei amcanion gwella ar gyfer 2012 a thu hwnt, dylai'r Cyngor ystyried a oes angen iddo nodi grŵp llai o'r

blaenoriaethau allweddol. Dylai hefyd drafod yn ehangach â chynghorwyr, partneriaid a chymunedau wrth lunio amcanion y dyfodol, fel y nodir yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol*.

## Er bod cryn dipyn o fusnes y Cyngor yn cael ei gynnal yn briodol, mae natur fregus y system wleidyddol, diffyg ymddiriedaeth, a pheth ymddygiad amhriodol yn parhau i effeithio ar y trefniadau llywodraethu ac arwain

22 Caiff cryn dipyn o fusnes beunyddiol y Cyngor ei gynnal mewn ffordd wresog a phriodol gyda chydberthnasau cadarnhaol rhwng cynghorwyr ac â swyddogion. Gwelsom rywfaint o waith craffu da a thystiolaeth o arweinyddiaeth gadarnhaol gan y Bwrdd Gweithredol ac uwch swyddogion.

23 Er bod cryn dipyn o fusnes yn cael ei gynnal yn foddhaol, gwnaethom hefyd nodi bod natur fregus system wleidyddol y weinyddiaeth amlbleidiol yn effeithio ar brosesau llywodraethu effeithiol o fewn y Cyngor. Nodwyd bod diffyg ymddiriedaeth i ryw raddau rhwng swyddogion a chynghorwyr, a rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu. Mae'r diffyg ymddiriedaeth hwn wedi cyfrannu at gynnydd arafach na'r hyn a fwriadwyd ar rai o flaenoriaethau allweddol y Cyngor.

24 Mae'r tensiynau'n gysylltiedig â natur fregus system wleidyddol y Cyngor, a'r oedi parhaus o ran datrys achos a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Nodwyd gennym fod pryderon parhaus ymhlith rhai cynghorwyr a swyddogion ynghylch ymddygiad amhriodol nifer fach o gynghorwyr.

25 Gwelwyd bod gweithdai yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hysbysu cynghorwyr am faterion dadleuol weithiau, yn amrywio o opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion i gynllunio'r gyllideb. Fodd bynnag, gwneir defnydd helaeth o'r fath gyfarfodydd, ac mewn rhai achosion gall ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio yn lle rôl llunio polisi pwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae cynnal gweithdai nad ydynt yn nyddiadur swyddogol y Cyngor yn ychwanegu at y nifer fawr o gyfarfodydd a gynhelir eisoes, ac mae'n llai tebygol y gall cynghorwyr sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau eraill fynychu'r rhain na chyfarfodydd a drefnwyd. Byddem yn disgwyl gweld llai o weithdai yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

26 Mae sefyllfa gymharol fregus arweinyddiaeth y weinyddiaeth amlbleidiol weithiau'n golygu bod yn rhaid i’r Prif Weithredwr ac uwch swyddogion ymgymryd â gweithgareddau arwain ychwanegol yn enwedig er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau pwysig y Cyngor. O ganlyniad, mae’n bosibl yr ystyrir bod gan uwch swyddogion ormod o ddylanwad dros benderfyniadau y dylai cynghorwyr fod yn gyfrifol amdanynt. Mae’n bosibl wedyn mai swyddogion a gaiff eu dwyn i gyfrif gan bwyllgorau trosolwg a chraffu am faterion sy'n deillio o benderfyniadau gwleidyddol ac y dylai’r arweinwyr gwleidyddol fod yn gyfrifol amdanynt.

27 Mae sefyllfa wleidyddol fregus y Cyngor, ynghyd â’r agenda heriol ar gyfer newid, yn golygu bod angen lefel uchel o arweinyddiaeth strategol a chorfforaethol. Cydnabuwyd yr angen i gynyddu gallu ac adnoddau arwain yn ymateb y Cyngor i

*Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* CLlLC. Mae hon yn risg barhaus i'r Cyngor ac felly caiff cynnydd yn y maes hwn ei adolygu yn Asesiad Corfforaethol nesaf yr Archwilydd Cyffredinol.

28 Mae'r sefyllfa wleidyddol fregus yn gosod dyletswydd ar bob cynghorydd sydd â'r hawl i gymryd rhan mewn trafodaethau gwleidyddol priodol ac y disgwylir iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, mae ganddynt ddyletswydd hefyd, a nodir yn eu cod ymddygiad, i drin cyd-gynghorwyr a swyddogion â pharch a pheidio â dwyn anfri ar y Cyngor yn ddiangen. Mae gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol gyfrifoldeb penodol hefyd i gefnogi hyn drwy helpu i sicrhau bod aelodau eu grwpiau'n dilyn y cod ymddygiad. Gall swyddogion hefyd gyfrannu drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau ar amser a bod cynghorwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni eu rolau.

## Er i rywfaint o gynnydd gael ei wneud o ran y strategaeth pobl, bu oedi cyn cwblhau'r Cytundeb Statws Sengl, nid oes dyddiad cwblhau disgwyliedig ar gyfer cynllun gweithlu corfforaethol ac mae rhai gwendidau pwysig eraill o ran adnoddau dynol

29 Yn ei asesiad yn 2010-11, nododd y Cyngor fod ei berfformiad yn erbyn y flaenoriaeth i fod 'yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg gyda chyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth teg a chyfartal o dan *Gytundeb Statws Sengl*' yn ddigonol. Mae Adolygiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn nodi mai 'oren' ar y cyfan yw'r gweithgareddau unigol sy'n cyfrannu at yr amcan hwn ac at elfen strategaeth pobl ei amcan i fod yn sefydliad modern, effeithlon a chosteffeithiol. Mae'r statws oren yn dynodi bod gwaith yn mynd rhagddo ond y disgwylir iddo gael ei gwblhau'n hwyr, ac mae'r statws hwn wedi parhau mewn adroddiadau chwarterol yn ystod 2011-12.

30 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd mewn llawer o feysydd o'i raglen rheoli pobl. Mae'n ceisio cyflwyno newidiadau mawr i'w drefniadau adnoddau dynol ac mae ganddo agenda heriol iawn. Ymhlith yr enghreifftiau o gynnydd mae'r canlynol:

- parhau â'r gwaith o ddileu data anghywir o systemau gwybodaeth adnoddau dynol a chyflawni asesiad mwy cywir o nifer y swyddi a staff o fewn y Cyngor;
- gwella trefniadau i reoli'r gwaith o gyflogi gweithwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr ynghyd â'u cost;
- sefydlu partneriaeth iechyd galwedigaethol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
- diweddaru sawl un o bolisïau adnoddau dynol allweddol y Cyngor;
- cwblhau'r broses o gyflwyno Hunanwasanaeth Cyflogeion i staff â mynediad i gyfrifiadur, fel y gallant ddiweddaru eu gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol ar y system TG;
- mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno system Hunanwasanaeth Rheolwyr debyg rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Chwefror 2012, fel y gallant gofnodi gwybodaeth yn gyflym;
- parhau i ddatblygu a darparu rhaglenni datblygu corfforaethol helaeth.

31 Er bod cynnydd yn cael ei wneud yn y meysydd hyn, bu hynt cyffredinol y strategaeth rheoli pobl yn arafach na'r disgwyl mewn llawer o'r meysydd pwysicaf gan gynnwys:

- Nodi gwybodaeth gywir am nifer y swyddi a staff o fewn y Cyngor. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i lawer o gynlluniau'r Cyngor nawr ac yn y dyfodol, ond mae data anghywir yn parhau i effeithio arni, er gwaethaf gwelliannau dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Prin yw'r cynnydd a wneir o ran datblygu gwaith cynllunio'r gweithlu corfforaethol ac nid oes amserlen glir ar gyfer cyflawni cynllun gweithlu a strategaeth ddatblygu ar gyfer y cyngor cyfan.
- Cwblhau gwaith ar werthuso swyddi, Statws Sengl a thelerau ac amodau.
- Mae’r Cyngor wedi bod yn adolygu strwythur y gwasanaeth adnoddau dynol ers 2009. Newidiwyd cwmpas y gwaith droeon, ac estynnwyd y dyddiad cwblhau. Bellach mae’r Cyngor yn bwriadu gwneud y newidiadau i wasanaethau ym mis Mai 2012. Bwriedir y bydd y strwythur newydd yn cynnwys adnodd penodedig i ddatblygu’r sefydliad, er mwyn cefnogi prosesau effeithiol i reoli newid a chynllunio’r gweithlu.

32 Yn ei lythyr yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Awst 2011, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y cynnydd mewn llawer o feysydd ond dywedodd fod y Cyngor ar ei hôl hi'n gyffredinol o ran rheoli pobl. Er mwyn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn, cynigiodd erbyn diwedd mis Hydref 2011, y dylai'r Cyngor gwblhau adolygiad o'r cynnydd cyffredinol o ran *Strategaeth Pobl 2009-12*, blaenoriaethu'r camau gweithredu sy'n weddill a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni, a chyflwyno adroddiad ar hyn i gynghorwyr.

33 Cynhaliwyd yr adolygiad a chyflwynwyd adroddiad arno i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2011. Nododd yr adroddiad a'r cynllun diwygiedig i ategu'r strategaeth bedair prif flaenoriaeth, er i'r amserlen ar gyfer y rhain gael ei hadolygu ac mewn rhai achosion gohiriwyd y cam cwblhau. Y prif flaenoriaethau a nodwyd gan y Cyngor yw:

- Statws Sengl a Chyflog Cyfartal;
- negodi telerau ac amodau diwygiedig;
- y prosiect newid cynllun sefydliadol;
- cam II y system gwybodaeth reoli adnoddau dynol (Hunanwasanaeth Cyflogeion a Rheolwyr).

34 Bu oedi neu ohirio mewn perthynas â meysydd gwaith eraill. Yn eu plith mae'r canlynol:

- datblygu rhaglen recriwtio graddedigion;
- cynllunio gweithlu rhanbarthol;
- cyflwyno fframwaith cymhwysedd y Cyngor.

35 Nododd yr adroddiad ar yr adolygiad, mewn rhai achosion, fod camau mwy cymesur/mesuradwy wedi'u cymryd i gyflawni nodau, er enghraifft, cyflwyno gwaith cynllunio gweithlu mewnol ar lefel isel.

36 Nododd y cynllun diwygiedig y byddai angen adnoddau ychwanegol ar gyfer wyth maes gwaith, a'u bod wedi'u sicrhau. Fodd bynnag, ni chafodd gynghorwyr unrhyw wybodaeth am ba adnoddau oeddent nac o ble y'u cafwyd.

37 Fel tua hanner y cynghorau yng Nghymru, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau *Cytundeb Statws Sengl* cyfreithiol, derbyniol na fforddiadwy. Mae'r broses hon yn dibynnu ar gwblhau trefniadau gwerthuso swydd ac mae hefyd yn gysylltiedig â chynlluniau i negodi costau cyflogaeth is drwy newid telerau ac amodau cyflogeion. Dechreuodd y gwaith cychwynnol ar werthuso swyddi yn 2003. Tynnwyd *Cytundeb Statws Sengl* arfaethedig yn ôl ar ddiwedd 2009 a dechreuwyd ar broses ddiwygiedig. Penodwyd ymgynghorydd yn Rheolwr Prosiect a sefydlwyd Bwrdd Prosiect Statws Sengl yn cynnwys cynghorwyr, uwch swyddogion a chynrychiolwyr undebau llafur yn 2010 i helpu i lunio'r cytundeb ar ei newydd wedd.

38 Roedd y bwrdd yn weithredol ar y dechrau ond mae nifer y cyfarfodydd wedi lleihau, ac ni chynhaliodd unrhyw gyfarfodydd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2011. Mae amserlen y prosiect wedi llithro ar sawl achlysur a chafodd y Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wybod am ragor o oedi ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2011. Mae'r Cyngor bellach yn bwriadu cwblhau'r gwaith ar y cytundeb erbyn mis Tachwedd 2012. Nododd yr adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2011 fod bodloni'r amserlen hon yn gwbl ddibynnol ar ymrwymiad a pherchenogaeth lawn y Tîm Rheoli Corfforaethol ac Uwch Reolwyr, cynghorwyr o bob plaid wleidyddol a'r Undebau Llafur ar y Cyd yn ogystal â sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i gyflawni'r prosiect.

39 Dywedodd y Cyngor wrthom fod uwch swyddogion a chynghorwyr a'r undebau llafur yn fwy hyderus y caiff y prosiect Statws Sengl ei gyflawni eleni ar ôl i Fwrdd y Prosiect dderbyn cynllun lefel uchel newydd a'r dyddiad cwblhau diweddarach ym mis Rhagfyr 2011. Mae'r gwaith hwn wedi gwneud i'r Cyngor newid y lefel o risg y mae wedi'i neilltuo i'r gwaith hwn, o goch i oren, sy'n golygu bod y Cyngor yn cydnabod bod y prosiect wedi profi rhywfaint o oedi o ran y gweithgarwch a drefnwyd, ond ei fod ar y trywydd cywir ar y cyfan gyda lefel ansicr o hyder y caiff canlyniadau eu cyflawni.

40 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud rhagor o waith ar ddechrau 2012 i asesu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli prosiect ar gyfer Statws Sengl a ph'un a yw'r ymrwymiad, y gallu a'r adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni'r amserlen ddiwygiedig.

## Mae cynnydd yn cael ei wneud ond nid yw'r Cyngor wedi cwblhau gwaith i lunio cynllun ariannol tymor canolig clir sy'n llwyr ymgorffori goblygiadau ariannol ei raglenni arbedion effeithlonrwydd er mwyn pennu'r diffyg (neu'r warged) a ragwelir, a dyrannu adnoddau i flaenoriaethau

41 Mae'r cynllun ariannol tymor canolig a'r strategaeth rheoli asedau yn ddwy o'r strategaethau adnoddau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcan i fod yn 'sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost effeithiol...a sicrhau ar yr un pryd fod ein trethi a'n ffioedd a'n taliadau lleol yn deg ac yn fforddiadwy'. Yn ôl asesiad y Cyngor, roedd ei berfformiad o ran yr amcan hwn yn 'ddigonol', tra aseswyd mai 'oren' (sef bod disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau ond nid ar amser) oedd statws y cynnydd ar yr elfennau ar ddatblygu ei *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig*, rheoli materion ariannol, a rheoli adeiladau. Aseswyd mai 'gwyrdd' oedd statws y cynnydd ar elfennau o'r amcan sy'n

gysylltiedig â chyflawni arbedion effeithlonrwydd a rheoli o fewn y gyllideb, ac ar gyfer y gwaith o gasglu'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig, sef bod y gwaith wedi'i gwblhau neu bod disgwyl iddo gael ei gwblhau'n gynt na'r disgwyl.

42 Ym mis Medi 2011, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2010, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a Chronfa Bensiwn Clwyd (y Gronfa Bensiwn). Er mai barn ddiamod a roddwyd, cynhwyswyd nodyn pwysleisio mater i dynnu sylw at natur a gwerth buddsoddiadau ecwiti preifat a ddelir gan y Gronfa Bensiwn. Cafodd aelodau wybod am nifer o faterion a oedd yn codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol ac fe'u crynhoir yn *Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig*, sydd ar gael yn Atodiad 3.

43 Ym mis Ionawr 2012, yn seiliedig ar ffigurau mis saith, rhagamcanodd y Cyngor ei bod yn debygol y bydd yn gorffen y flwyddyn ariannol gyda thanwariant o £0.6 miliwn. Mae hyn yn cynnwys gorwariant net o £0.2 miliwn ar wasanaethau, wedi'i wrthbwyso gan gyfraniad o £0.8 miliwn o gyllidebau canolog a chorfforaethol. Mae cyllideb 2011-12 yn cynnwys £8.9 miliwn o arbedion effeithlonrwydd penodol ac yn ôl yr amcanestyniadau caiff £7.7 miliwn ei sicrhau.

44 Mabwysiadodd y Cyngor ei *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig* a chynllun ariannol tymor canolig cychwynnol ym mis Mehefin 2011. Gwnaed hyn ar ôl i'r Cyngor gydnabod bod angen cryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol strategol a ategwyd gan argymhellion archwilwyr mewnol ac allanol ac *Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid* CLILC. Ym mis Awst 2011, nododd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn ymwneud â'r Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol 'erbyn diwedd 2011, y dylai'r Cyngor gwblhau'r gwaith o ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig er mwyn gallu gwneud penderfyniadau hyddysg ar sut yr eir i'r afael â phwysau ariannol a sut y dyrennir adnoddau i gyflawni amcanion gwella'.

45 Ers mis Mehefin 2011, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig i ddarparu amcangyfrifon cadarn o sefyllfa ariannol y Cyngor dros gyfnod o dair blynedd (2012-13 i 2014-15). Mae hyn wedi cynnwys nodi pwysau na ellir ei osgoi ac arbedion effeithlonrwydd. Yn benodol, yn dilyn prosiect *Dyfodol Sir y Fflint* a wnaeth adolygu a herio cyllidebau ymhob rhan o'r sefydliad, mae'n werth crybwyll bod y Cyngor wedi nodi ychydig dros £2 filiwn o arbedion effeithlonrwydd pellach.

46 Mae'r cynllun ariannol tymor canolig diweddaraf yn rhagweld diffygion ariannol o £1.718 miliwn yn 2012-13 a fydd yn codi i £4.132 miliwn yn 2013-14 a £7.388 miliwn yn 2014-15. Yn y cyd-destun hwn y pennir cyllideb 2012-13.

47 Mae gwaith wedi mynd rhagddo hefyd i ddatblygu strategaeth gyfalaf a rhaglen gyfalaf 10 mlynedd a sicrhau bod cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yn cael eu hintegreiddio'n llawn a bod goblygiadau refeniw cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael eu deall a'u cynnwys yn y cynllun ariannol.

48 Wrth gymharu sefyllfa bresennol y Cyngor, o ran deall ei ragolygon ariannol a chael fframwaith clir i reoli ei adnoddau, â'r un

cyfnod y llynedd, mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol, er nad oedd yn dechrau o sylfaen dda iawn. Fodd bynnag, un peth hollbwysig yw bod mwy o waith i’w wneud i sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau ariannol fydd yn ei wynebu.

49 Ar hyn o bryd canolbwyntir ar fantoli’r gyllideb ar gyfer 2012-13 ac yn y dyfodol agos, dyma’r flaenoriaeth briodol. Fodd bynnag, yn fuan wedi hynny, mae angen i’r Cyngor nodi’r ffyrdd penodol y bydd yn mynd i’r afael â’r diffygion ariannol yn 2013-14 a 2014-15 er mwyn sicrhau ei fod yn caniatáu digon o amser i weithredu penderfyniadau a chynlluniau mwy anodd er mwyn cyflawni’r arbedion ar yr amser priodol.

50 Yn ogystal, dylai’r Cyngor ystyried p’un a yw am nodi mwy o arbedion, sy’n mynd y tu hwnt i’r diffyg ariannol, er mwyn ei alluogi i ailgyfeirio adnoddau i feysydd â’r flaenoriaeth fwyaf er mwyn cyflawni ei amcanion ymhellach.

51 Yn y bôn, mae angen i’r Cyngor bennu goblygiadau ariannol rhaglen *Dyfodol Sir y Fflint* ac unrhyw brosiectau effeithlonrwydd eraill er mwyn asesu p’un a ydynt yn ddigon i fynd i’r afael â’r diffyg ariannol a chreu gallu ac adnoddau neu a oes angen mentrau eraill. Mae’r Cyngor yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd.

52 Rhaglen *Dyfodol Sir y Fflint* yw rhaglen y Cyngor i foderneiddio ac ad-drefnu'r modd y darperir gwasanaethau ac ymateb i'r dyfodol ariannol heriol sy'n wynebu llywodraeth leol. Cydlynwyd y rhaglen i ddechrau gan ymgynghorydd a benodwyd ar y cyd â Chyngor Sir Wrecsam. Yn Sir y Fflint lluniwyd rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar ddwy is-raglen: rhaglen 'Newid' i gynyddu effeithlonrwydd; a rhaglen 'Dewis' a oedd yn canolbwyntio ar gydweithio a dulliau cyflawni amgen. Cafodd grŵp cychwynnol o brosiectau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy eu nodi a mabwysiadwyd dull cynllunio prosiect strwythuredig.

53 Ers hynny, mae'r rhaglen wedi parhau i ddatblygu. Mae'r contract gyda'r ymgynghorydd wedi dod i ben, ac mae'r gwaith bellach yn cael ei reoli drwy arweinyddiaeth ran amser dau bennaeth gwasanaeth, a benodwyd yn brif weithredwyr cynorthwyol. Mae'r Cyngor hefyd yn newid y ffordd yr eir ati i gynllunio’r prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn lleihau cymhlethdodau ac yn defnyddio amser yn effeithlon. Datblygir dull gweithredu newydd. Nodwyd cyfanswm o 57 o brosiectau wedi'u strwythuro o gwmpas pedair thema, sef:

- Newid corfforaethol
- Newid gwasanaeth
- Cydweithio rhanbarthol
- Cydweithio sirol lleol

54 Mae'r rhaglen yn cynnwys llawer o brosiectau sy'n cael eu datblygu o fewn gwasanaethau a rhyngddynt. Y nod cychwynnol oedd nodi rhwng 5 a 10 y cant o arbedion i'r Cyngor ond nid yw'n glir pa arbedion a wireddir o brosiectau unigol. Mae Tîm *Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint* yn cynnwys swyddogion ar secondiad, sy'n gweithio'n rhan amser yn bennaf, i helpu i gyflawni'r prosiectau.

55 Prin yw ymwneud y cynghorwyr â'r rhaglen er i adroddiadau lefel uchel gael eu rhoi i'r Bwrdd Gweithredol. Nid yw'r adroddiadau a roddwyd i'r Bwrdd Gweithredol wedi nodi'r newidiadau i'r ffordd y rheolir y rhaglen ac nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth benodol am faint o arbedion ac effeithlonrwydd a fyddai'n cael eu cyflawni gan y prosiectau neu'r rhaglen. Er gwaetha'r ffaith bod adroddiadau monitro'r gyllideb yn cyfeirio at y rhaglen yn fynych, ni chyflwynwyd unrhyw adroddiad penodol ar y rhaglen i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac nid oes elfen craffu ar y rhaglen o gwbl yn rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer 2011-12. Cafodd rhywfaint o wybodaeth ei chynnwys mewn Bwletin i’r Gweithlu ym mis Rhagfyr 2011, ond nid oes gan y rhaglen strategaeth gyfathrebu wedi ei datblygu’n llawn i sicrhau bod gwybodaeth fewnol ac allanol effeithiol ac amserol yn cael ei rhoi am y rhaglen a'i llu o brosiectau.

56 Dywed *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor fod yr holl brosiectau ar waith a bod noddwyr a threfniadau rheoli yn eu lle. Yn dilyn penodi'r penaethiaid gwasanaeth, cynhelir 'gwerthusiad' ar hyn o bryd sy'n debygol o weld rhai prosiectau yn cael eu hisraddio a mwy o sylw yn cael ei roi i brosiectau sydd â'r potensial i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

57 Yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol*, dywedodd 'nid yw eto'n glir a oes gan y rhaglen ddigon o gefnogaeth wleidyddol neu'r gallu i ddarparu'n effeithiol’. Er bod yr arweinyddiaeth ychwanegol a'r gwaith gwerthuso yn gamau priodol ymlaen, mae'r pryderon hyn yn dal i fodoli.

58 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau mawr o ran y ffordd y rheolir ei stoc adeiladau annomestig a'i stoc tai. Mae'r Cyngor yn derbyn bod ganddo ormod o adeiladau annomestig sy'n gostus i'w cynnal a chadw, â mannau gweithio anhyblyg ac adeiladau nad ydynt yn y man cywir mwyach. Mae wedi sefydlu prosiect, o fewn *Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint*, i wella'r broses o reoli asedau drwy resymoli swyddfeydd, gweithio ystwyth a chreu 'canolfannau cymunedol' ar y cyd â phartneriaid lle y gall y cyhoedd gael gafael ar wasanaethau. Yn ôl asesiad y Cyngor statws 'oren' sydd wedi'i roi i hynt ei waith rheoli asedau.

59 Mae'r Cyngor hefyd wedi paratoi *Strategaeth Rheoli Asedau Tai* ddrafft ar gyfer 2012-2018 sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a chadw ei stoc tai, gan ystyried anghenion buddsoddi cartrefi ledled y sir a'r arian sydd ar gael ar gyfer gwelliannau o’r Cyfrif Refeniw Tai. Dywed y strategaeth i arolwg o gartrefi'r Cyngor ddangos bod angen buddsoddi tua £166 miliwn er mwyn i'r eiddo dan sylw gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru mewn pum mlynedd. Gall y Cyngor ddisgwyl i £49 miliwn fod ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf yn yr un cyfnod. Mae'r diffyg ariannu hwn yn un rheswm dros benderfyniad y Cyngor i gynnal pleidlais trosglwyddo stoc tai, a ystyrir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Mae'r Cyngor wedi gwella gwaith partneriaeth strategol lleol ac mae'n parhau i ddatblygu trefniadau cydweithio â chynghorau cyfagos a thrwy brosiectau rhanbarthol er bod yr arbedion cost i'w cyflawni yn ansicr hyd yn hyn

60 Un o amcanion y Cyngor yw 'cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd gorau posibl o ran cost drwy gydweithio'n rhanbarthol ac is-ranbarthol i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol'. Ar gyfer 2010-11, asesodd fod ei gynnydd yn erbyn yr amcan hwn yn 'ddigonol'.

**Mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu a rhesymoli partneriaethau strategol**

61 Mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y partneriaethau statudol lleol: y Bwrdd Gwasanaethau Lleol; y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; y Grŵp Gweithredol Diogelwch Cymunedol; a'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Mae hefyd wedi helpu i arwain y gwaith o ddatblygu'r Bartneriaeth Adfywio, Partneriaeth Dai Sir y Fflint, a'r Compact Sector Gwirfoddol. Mae wedi arwain y gwaith o ddatblygu fframwaith llywodraethu ar gyfer y partneriaethau sy'n cael ei ddilyn.

62 Mae'r partneriaethau yn mynd ati'n gynyddol i geisio defnyddio atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau i ystyried sut y byddant yn mesur eu cyflawniadau. Bydd yn bwysig datblygu dull gweithredu seiliedig ar ganlyniadau fel bod modd asesu'r cyflawniadau drwy bartneriaeth. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i werthuso'r cyfraniad y bydd rhesymoli partneriaethau yn ei wneud i gyflawni canlyniadau mwy amlwg.

63 Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o ddatblygu ac arwain trefniadau i resymoli'r partneriaethau statudol yn rhanbarthol a'u cyfuno ar lefel isranbarthol. Mae'r datblygiadau hyn yn mynd rhagddynt yn dda gyda rhai partneriaethau lleol yn uno a chamau i sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogelach rhanbarthol. Mae'r Cyngor hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu *Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2011-2014* ar y cyd ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam – y cyntaf o'i fath. Sefydlwyd grŵp prosiect ym mis Mehefin 2011 i ystyried opsiynau o ran trefniadau cydweithredu ac uno ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint a Wrecsam ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

64 Rhoddir adroddiadau rheolaidd ar drefniadau partneriaeth i'r Bwrdd Gweithredol. Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Proffil a Phartneriaethau Cymunedol ei greu yn 2010-11 i ystyried cydberthnasau'r Cyngor â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill a'i bartneriaid. Yn ystod 2010-11, cynhaliodd y pwyllgor gyfarfodydd â Heddlu Gogledd Cymru, Prifysgol Glyndŵr a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau diweddaru ar waith partneriaeth ac adroddiadau penodol ar brosiectau a datblygiadau.

**Mae prosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn datblygu**

65 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi bod yn gweithredu prosiect Lleihau Carbon a Chynllunio Addasiadau ers 2009. Roedd y Cyngor hefyd yn un o blith pedwar cyngor a ddewiswyd i fod yn rhan o brosiect peilot Cynllunio Addasiadau Newid yn yr Hinsawdd, a gefnogwyd gan CLILC, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a Rhaglen Effaith ar yr Hinsawdd y DU. Drwy'r prosiect peilot hwn, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i nodi'r risgiau a rennir o ran newid yn yr hinsawdd i'r Cyngor a'i bartneriaid yn Sir y Fflint.

66 Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar brosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar atal a lleihau tlodi ac anfantais, sy'n canolbwyntio ar gyngor ar fudd-daliadau a dyledion. Y nod yw ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar gyngor a mathau eraill o gymorth.

**Gwelir mwy a mwy o gydweithio â chynghorau cyfagos i ddarparu gwasanaethau**

67 Mae'r Cyngor yn cydweithio mwy â chynghorau cyfagos. Ymhlith y datblygiadau mae'r canlynol:

- mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar y cyd iddo'i hun a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
- y prosiect Gwastraff Bwyd gyda chynghorau Sir Ddinbych a Chonwy sydd wedi nodi dewis gynigydd i gyflawni'r prosiect;
- Bwrdd Diogelu Plant Lleol ar y cyd rhwng Wrecsam a Sir y Fflint, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2011;
- Tîm Dyletswydd Argyfwng (gwaith cymdeithasol) Gogledd-ddwyrain Cymru ar gyfer cynghorau Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint;
- mae system e-gaffael 'prynu i dalu' (P2P) yn cael ei chaffael ar y cyd â Chyngor Wrecsam;
- mae'r Cyngor wedi llunio trefniant rheoli ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych i reoli gwasanaeth caffael.

68 Y Cyngor yw corff arweiniol Prosiect Cymuned Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru (NEW PLAY) sef partneriaeth amlasiantaethol sy'n datblygu seilwaith ar gyfer mannau chwarae i blant ac yn darparu gweithgareddau chwarae ledled Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Bydd prosiect NEW Play yn cyflogi 11 o aelodau o staff ac yn cael ei ariannu am dair blynedd o fis Gorffennaf 2011 drwy Raglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri Fawr.

**Mae prosiectau cydweithio rhanbarthol yn cael eu datblygu**

69 Ar y cyd â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru, mae Sir y Fflint yn rhan o Dîm Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'n ymwneud â phedwar bwrdd rhaglen, y mae gan bob un ohonynt nifer o brosiectau cydweithio rhanbarthol (gweler Arddangosyn 1).

Arddangosyn 1: Prosiectau cydweithio rhanbarthol
Mae'r pedwar bwrdd rhaglen rhanbarthol yn datblygu amrywiaeth o brosiectau

| Bwrdd rhaglen | Prosiectau |
|---|---|
| **Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig** | • Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>(Disgwylir i ail gam ehangu cwmpas y gwasanaeth)<br>• Cydweithio mewn Gwasanaethau Llyfrgell |
| **Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** | • Canolfan Gomisiynu<br>• Gwasanaethau Cefnogi Pobl<br>• Teleofal<br>• Datblygu'r Gweithlu<br>• Cymorth TGCh ar gyfer cofnodion cleientiaid (PARIS a RAISE) |
| **Bwrdd Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddiol** | • Rheoli Fflyd<br>• Trawsnewid Trafnidiaeth<br>• Gwastraff<br>• Ehangu Taith<br>• Datblygu Economaidd |
| **Gwasanaethau Cymorth** | • Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• TGCh<br>• Caffael<br>• Gostyngiadau Person Sengl<br>• Cynllunio at Argyfwng |

70 Mae’r Cyngor yn parhau i chwarae rhan arweiniol ym Mhrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Mae’r prosiect yn mynd rhagddo’n dda ac mae wrthi’n nodi cynigwyr a ffefrir i ddarparu gwasanaeth trin gwastraff gweddilliol i bum cyngor yng Ngogledd Cymru.

71 Sir y Fflint yw’r cyngor arweiniol ar gyfer Cyd-wasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru a ddaeth yn weithredol o fis Ebrill 2011. Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd a gwersi ar gyfer gwasanaethau ar y cyd yn y dyfodol i’r Weithrediaeth ym mis Tachwedd 2011. Caiff buddiannau ariannol y gwasanaeth eu hadolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf.

72 Sefydlwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ar gyfer y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru ym mis Ebrill 2011.

## Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ymdrin â'r gwendidau o ran gweithredu ei Gynllun Iaith

73 O dan ddyletswyddau sector cyhoeddus *Deddf Cydraddoldeb 2010* mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus bennu amcanion cydraddoldeb erbyn mis Ebrill 2012 a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol. Gwelsom mai ymwybyddiaeth gymysg o *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* a fodolai ymhlith uwch swyddogion. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud gan y Cyngor i gael rhanddeiliaid i nodi a blaenoriaethu amcanion cydraddoldeb lleol.

74 Mae'r *Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2010-11* y Cyngor yn nodi ystod eang o gamau cydraddoldeb sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i gyflawni ei amcanion o ran cydraddoldeb.

75 Cyflwynwyd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a chynhaliwyd rhai asesiadau llawn, er nad yw'r rhain yn cael eu cwblhau'n gyson eto ac mae ansawdd yr asesiadau'n amrywio.

76 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cyngor wedi nodi wyth maes â blaenoriaeth y mae angen gweithredu arnynt er mwyn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â gwendidau sylfaenol a risgiau wrth weithredu ei *Gynllun Iaith*. Yn ôl Bwrdd yr Iaith mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn yr wyth maes, ond mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd i fodloni gofynion y Cynllun, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio busnes, rheoli perfformiad a gweithredu *Strategaeth Sgiliau Iaith*. Cafodd y Cyngor ei ganmol gan y Bwrdd am asesu gofynion iaith pob swydd lle mae angen delio â'r cyhoedd. Er mai nifer fach o siaradwyr Cymraeg sydd mewn swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lenwi'r swyddi gwag â siaradwyr Cymraeg pan fyddant yn dod yn wag. Mae’r Cyngor yn cynnal asesiad i lywio’r camau gweithredu a gymerir yn 2012-13 i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â chynllunio busnes, rheoli perfformiad a meysydd eraill a nodwyd.

## Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu gwell dull corfforaethol o ymgysylltu â'r cyhoedd

77 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Sir y Fflint fel rhan o astudiaeth Cymru gyfan. Cafodd y canfyddiadau eu cyflwyno gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Awst 2011 yn ei lythyr yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol*. Daethpwyd i'r casgliad 'er bod enghreifftiau cadarnhaol o waith ymgynghori gan rai gwasanaethau, nid yw dull corfforaethol y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i ddatblygu digon ac nid yw'n dilyn methodoleg gydlynol. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio gwerthusiadau yn gyson i wella effeithiolrwydd ei waith ymgynghori na phrosesau darparu gwasanaethau.'

78 O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru* a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfranogaeth Cymru (partneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector) ac mae'n bwriadu llunio gwell fframwaith corfforaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n aros i astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar ymgysylltu â'r cyhoedd ac arfer da cysylltiedig gael ei chyhoeddi ar ddechrau 2012.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran newidiadau sy'n anelu at wella mynediad cwsmeriaid er mai megis dechrau mae'r gwaith, ac nid yw graddau'r buddiannau na'r gwerth am arian yn glir eto

79 Caiff amcan y Cyngor sef 'cyflawni'r safonau uchaf o ran gwasanaeth a gofal i gwsmeriaid drwy ein strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid' ei gyflawni drwy:

- gyflwyno 'Cyswllt Sir y Fflint' (pwyntiau mynediad i gwsmeriaid);
- prosiect 'Newid Sianel' i alluogi cwsmeriaid i newid i ddefnyddio dulliau hunanwasanaeth o wneud busnes, megis trafodion drwy wefan y Cyngor;
- gwella gwasanaethau cwsmeriaid drwy ddatblygu canolfannau cyswllt cwsmeriaid megis canolfan cyswllt cwsmeriaid Gwasanaethau Stryd.

80 Yn ôl asesiad y Cyngor, roedd ei gynnydd cyffredinol o ran yr amcan hwn yn 2010-11 yn 'dda' er bod rhai agweddau ar y flaenoriaeth hon yn 'oren' gan olygu bod cynnydd yn cael ei wneud ond bod y Cyngor ar ei hôl hi. Erbyn canol 2011-12, asesodd y Cyngor fod cynnydd da yn cael ei wneud ym mhob un o'r tair brif elfen a'i fod yn gwbl hyderus bod y canlyniadau bwriadedig yn debygol o gael eu cyflawni.

81 Cynhaliwyd gweithdai i gynghorwyr ar y datblygiadau hyn ac mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno â lleoliad cyfleuster cyntaf Cyswllt Sir y Fflint yn Nhreffynnon. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi llunio achosion

busnes clir dros brosiect Cyswllt Sir y Fflint eto sy’n dangos costau llawn a buddiannau’r prosiect, y canlyniadau penodol y gellir eu disgwyl, a’r mesurau llwyddiant a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd y datblygiadau.

82 Camau gweithredu yw'r 'canlyniadau' a nodir yn y cynllun gwella ar gyfer yr amcan hwn (er enghraifft, cyflwyno cam cyntaf rhaglen Cyswllt Sir y Fflint), yn hytrach na chanlyniadau, ac nid ydynt yn cynnwys mesurau llwyddiant addas y gellir asesu gwelliannau i ddinasyddion yn eu herbyn. Mae’r Cyngor yn parhau i weithio i ddatblygu mesurau llwyddiant sy’n seiliedig ar ganlyniadau. Mae ymarfer gwireddu buddiannau ar waith ar gyfer prosiect Cyswllt Sir y Fflint a gaiff ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2012.

83 Mae Cyswllt Sir y Fflint a'r gwaith o ddatblygu 'Channel Shift' yn ddau brosiect o fewn *Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint*. Mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu chwe chyfleuster Cyswllt Sir y Fflint a nodwyd Treffynnon fel y lleoliad posibl ar gyfer y cyfleuster cyntaf y disgwylir iddo agor ym mis Mehefin 2012. Mae'r cyfleuster yn Nhreffynnon yn cael ei gynllunio ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, Cymunedau yn Gyntaf a Choleg Glannau Dyfrdwy.

84 Mae'r Cyngor wedi bod ar ymweliadau ac wedi cynnal ymarferion i helpu i ddatblygu’r weledigaeth a dysgu gan ganolfannau cyswllt eraill yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a roddir i gynghorwyr yn dangos y buddiannau i gwsmeriaid na chostau'r gwahanol ganolfannau yr ymwelwyd â hwy.

85 Yn ôl adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar y datblygiad arfaethedig, byddai'r cyfleuster cyntaf yn gofyn am £275,000 o gyfalaf a gwariant refeniw cychwynnol ychwanegol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y gall fod costau refeniw ychwanegol o £75,000 yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect ond y gellid cyflawni arbedion staffio o £300,000 dros gyfnod o bum mlynedd. Ymddengys mai gwybodaeth dros dro yw'r wybodaeth ariannol gyfyngedig sydd ar gael ac nid yw'n sail gadarn i'r achos busnes dros ddatblygiad mor fawr. Cred y Cyngor y bydd yr ymarfer gwireddu buddiannau, a’r profiad o ddatblygu’r ganolfan gyntaf yn Nhreffynnon, yn llywio gwaith cynllunio ariannol canolfannau eraill.

86 Mae'r prosiect Newid Sianel ar gam cynnar iawn o ran casglu data a gwybodaeth. Y bwriad yw annog trigolion sy'n cysylltu â'r Cyngor i newid o gyswllt wyneb yn wyneb i gyswllt dros y ffôn neu ar y wefan.

87 Mae'r Cyngor yn bwrw ati â'r gwaith o ddatblygu canolfan gyswllt ar gyfer ateb galwadau ffôn ynghylch y gwasanaeth Gwasanaethau Stryd. Disgwylir i'r ganolfan gyswllt agor ar ddechrau 2012.

88 Cytunwyd ar Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid 2010-13 ym mis Mai 2010 ac mae'n cyflwyno amcanion lefel uchel yn ogystal â chynigion amlinellol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at yr angen i'r Cyngor ddeall anghenion ei gwsmeriaid yn well a sicrhau bod ei gynlluniau yn diwallu eu hanghenion. Yn ogystal â'r ffordd y mae cwsmeriaid am gael gafael ar y Cyngor mae'r Strategaeth hefyd yn nodi bod angen iddo ddeall y canlynol:

- Pryd mae'n well ganddynt gysylltu â'r Cyngor
- Pam eu bod yn cysylltu â'r Cyngor
- Ynghylch beth y maent yn cysylltu â'r Cyngor

89 Mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud peth gwaith i feithrin ei ddealltwriaeth o'i 'gwsmeriaid' a'u hanghenion newidiol ond nid oes adroddiad wedi'i lunio hyd yma ar yr hyn y mae wedi'i ddysgu na sut y bydd yn dylanwadu ar y patrwm o ddatblygiadau i wella mynediad i wasanaethau.

90 Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at gostau cyfartalog costau trafodion wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein yng Nghymru a Lloegr ac mae wedi defnyddio'r rhain fel sail i'w gynigion. Fodd bynnag, ni chyfrifwyd y costau sy'n gymwys i Sir y Fflint ac mae'r Cyngor o'r farn y byddai gwneud hynny yn anodd iawn ac yn wrthgynhyrchiol. Cred y Cyngor y bydd rhoi cynigion y strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid ar waith yn arwain at welliannau o ran mesur cost cyswllt cwsmeriaid. Bydd y gallu i ddeall costau gwasanaethau yn agwedd bwysig ar benderfyniadau ynghylch y trefniadau ar gyfer cyswllt cwsmeriaid yn y dyfodol. Bydd hyn yn gymwys i gyfleusterau Cyswllt Sir y Fflint a'r prosiectau Newid Sianel.

## Mae cynnydd da mewn rhai meysydd â blaenoriaeth ond mewn mannau eraill mae'n gymysg ac nid yw rhai gwasanaethau yn darparu ar y lefelau disgwyliedig eto

91 Yn sgîl ein hadolygiadau o'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni gwelliannau mewn meysydd â blaenoriaeth, down i'r casgliad fod cynnydd da mewn rhai meysydd â blaenoriaeth ond mewn mannau eraill mae'n gymysg ac nid yw rhai gwasanaethau yn darparu ar y lefelau gwasanaeth disgwyliedig eto.

### Mae cynnydd cymysg o ran rhoi gwell cymorth i bobl mewn angen ond mae datblygiadau mawr ar y gweill o ran gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol i oedolion

92 Mae'r adran hon yn trafod pa mor dda y mae'r cyngor yn cyflawni gwelliannau mewn perthynas â helpu pobl mewn angen. Prif amcanion y Cyngor o ran helpu pobl mewn angen yw:

- hyrwyddo bywyd annibynnol, iach a boddhaus yn y gymuned gyda gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd cefnogol a phersonol o'r ansawdd uchaf;
- bodloni'r angen am dai yn y sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o wasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy a chartrefi o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a sector preifat;
- amddiffyn a datblygu'r economi leol a rhanbarthol, bod yn sir ffyniannus a darparu cymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n agored i dlodi.

93 Penododd y Cyngor Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol newydd, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2011, ar ôl cyfnod o 18 mis pan lenwyd y swydd wag gan y Prif Weithredwr a'r tri phennaeth gwasanaeth. Ymhlith cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr mae rôl statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a bod yn bennaf cyfrifol am arwain gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau tai.

**Mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion a'u datblygu, ac mae wedi mabwysiadu cynllun i drawsnewid gofal cymdeithasol oedolion**

94 Yn ôl asesiad y Cyngor, roedd ei berfformiad yn 2010-11 o ran hyrwyddo bywyd annibynnol, iach a boddhaus gyda gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd o'r ansawdd uchaf yn 'ddigonol'.

95 Mae AGGCC yn darparu adolygiad a gwerthusiad blynyddol i bob cyngor yng Nghymru ar ôl cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y crynodeb cyffredinol o adolygiad AGGCC ar gyfer 2010-11:

- ‘Ceir ymrwymiad cryf i weithio ar y cyd ac edrych ar ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau. Mae’r gwasanaethau i blant wedi parhau i ddatblygu dulliau gwell o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, ac mae’r gwasanaethau i oedolion wedi dechrau rhaglen o drawsnewid wrth barhau i newid y pwyslais i atal, hybu annibynniaeth ac ailalluogi.
- Fodd bynnag, mae hwn yn gyfnod anodd i’r cyngor a bydd heriau sylweddol yn y flwyddyn i ddod.
- I’r gwasanaethau i oedolion yn benodol, mae newidiadau yn strwythurau’r bwrdd iechyd yng Ngogledd Cymru a chreu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi effeithio ar fomentwm lleol, ond mae

arwyddion bod hyn yn gwella. Mae mwy o eglurder ynglŷn â'r bwriad comisiynu hirdymor ar gyfer y gwasanaethau anabledd dysgu yn ofynnol ac mae hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

- Mae nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn y gwasanaethau i blant yn datgelu ei bod yn ofynnol rhoi sylw parhaus i'r prosesau rheoli gofal er mwyn darparu'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. Er gwaethaf peth cynnydd, mae gormod ohonynt wedi methu â chyrraedd y safonau a osodwyd yn flaenorol, ac mae nifer ohonynt wedi gostwng yn sylweddol. Cydnabyddir bod gweithredu'r system wybodaeth PARIS wedi effeithio ar gywirdeb y cofnodion yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae hyn wedi cael effaith ar y dangosyddion perfformiad. Mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal wedi gwella, ond mae angen sylw pellach ar hwn a dylai barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.'

**Mae gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn wynebu amser anodd ond cytunwyd ar gynllun i'w trawsnewid**

96 Ers penodi'r cyfarwyddwr newydd, mae'r Cyngor yn gwneud mwy i fynd i'r afael â gwendidau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn y byrdymor a'r hirdymor.

97 Mae *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor yn nodi'r canlynol:

- mae *Iechyd Da, Gofal Da yn Sir y Fflint 2011-14*, sef y strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles nesaf wedi'i chymeradwyo;
- mae mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth ailalluogi ac mae mwy o ofalwyr yn cael eu hasesu ac yn cael gwasanaeth.

98 Mae'r adroddiad yn cydnabod bod llai o gynnydd wedi'i wneud yn 2010-11 o ran cynorthwyo pobl drwy daliadau uniongyrchol a chyflwyno addasiadau'n well.

99 Mae adolygiad AGGCC ac adroddiadau perfformiad chwarterol y Cyngor ar gyfer 2011-12 yn nodi nifer o feysydd gwasanaeth ar gyfer oedolion lle mae perfformiad yn is na'r disgwyl. Er mwyn gwneud newidiadau'n gyflymach i ganolbwyntio ar gamau atal, hybu annibyniaeth ac ailalluogi mae'r Cyngor wedi cytuno ar gynllun 'Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion' (TGCO).

100 Yn ystod hanner cyntaf 2011-12, mae'r gwasanaeth gofal i oedolion wedi arbed tua £250,000 drwy reoli swyddi gwag. Mae rheolwyr yn ymgymryd â mwy o waith er mwyn lliniaru'r effaith. Nodwyd y bydd y swyddi gwag hyn yn parhau heb eu llenwi ac yn cyfrannu at yr hyblygrwydd sydd ei angen o ran TGCO, drwy ailgynllunio gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd.

101 Disgwylir i nifer o gamau gweithredu eraill gyfrannu at y gwelliant hefyd:

- Cynhelir adolygiad o daith y defnyddiwr gwasanaeth drwy wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion gan ddefnyddio methodoleg 'ddarbodus' a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2012.
- Mae'r Cyngor yn dilyn 'cynllun gweithredu ar dargedu gwelliannau' er mwyn canolbwyntio ar feysydd allweddol o berfformiad.

- Mae'r Cyngor hefyd yn ymwneud â'r cynlluniau i ddatblygu canolfan ranbarthol ar gyfer gwaith comisiynu, caffael a monitro o ran gofal preswyl cost uchel, lefel isel yn y meysydd gwasanaeth canlynol:
  - Gwasanaethau Plant
  - Anableddau Dysgu
  - Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
  - Iechyd Meddwl
- Yng nghanol 2010-11, mae'r Cyngor wedi nodi bod y gwaith o foderneiddio ac ehangu'r gwasanaeth wardeniaid yn mynd yn ei flaen yn gynt na'r disgwyl. Mae'r argymhellion i dreialu gwasanaeth estynedig wedi cael eu cymeradwyo gan gynghorwyr gyda chynllun peilot chwe mis yn dechrau ym mis Tachwedd 2011.

**Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach**

102 Dengys *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor gynnydd cymysg mewn gwasanaethau plant. Mae ei adroddiad ar berfformiad ar gyfer canol 2011-12 yn dangos bod llawer o gamau gweithredu a dangosyddion wedi cael statws 'oren' sy'n golygu bod gwaith yn mynd rhagddo ond bod y Cyngor ar ei hôl hi.

103 Nododd adolygiad AGGCC fod gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud gyda gofalwyr ifanc a bod adolygiadau mewnol rheolaidd yn cael eu cynnal i brofi cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau asesu a rheoli gofal. Fodd bynnag, dywedodd AGGCC y canlynol hefyd:

- bod angen i systemau rheoli gofal, yn enwedig rhai plant sy'n derbyn gofal, wella;
- bod asesu a chynllunio achosion plant mewn angen ynghyd â'u hadolygu'n amserol yn ddull hanfodol o'u diogelu ac atal problemau rhag gwaethygu efallai ac felly bod angen gwella'r maes hwn ar unwaith ac yn barhaus;
- bod angen gwneud rhagor o waith i wella ansawdd data, nad yw'n gwbl gywir nac yn ddibynadwy o hyd.

104 Nododd adolygiad AGGCC hefyd fod 'y Grŵp Siarad ar Ran Plant mewn Gofal a'r Rhwydwaith Cefnogi Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal wedi eu sefydlu ac fe'u defnyddir yn effeithiol i adolygu a gwella gwasanaethau. Mae enw da i'r digwyddiad Gwobrau Balchder Sir y Fflint sydd yn dathlu cyflawniadau plant sy'n derbyn gofal.'

105 Cafodd Byrddau Lleol Diogelu Plant Sir y Fflint a Wrecsam eu huno ym mis Ebrill 2011. Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd y Cyngor, a bydd hefyd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n barhaus gan AGGCC.

106 Bydd AGGCC yn arolygu trefniadau asesu a rheoli gofal plant ym mis Mawrth eleni.

107 Yng nghanol 2011-12, mae'r Cyngor wedi nodi ei fod yn gwneud cynnydd da i wella trefniadau o ran lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant. Mae hyn wedi arwain at ragolwg y bydd tanwariant yn y gyllideb ar gyfer lleoliadau.

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran diwallu anghenion tai ond mae'n cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach**

108 Yn ôl asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2010-11, roedd yn 'ddigonol' ar gyfer ei amcan i fodloni'r angen am dai yn y Sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o wasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy a chartrefi o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a sector preifat. Rhoddwyd statws 'oren' i'r rhan fwyaf o'r camau penodol a gafodd eu hasesu gan olygu bod cynnydd yn cael ei wneud ond bod y Cyngor ar ei hôl hi.

109 Y blaenoriaethau ar gyfer yr amcan hwn fu:

- darparu tai fforddiadwy drwy'r strategaeth tai fforddiadwy;
- gwneud gwelliant sylweddol a chyflym o ran ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad gwasanaethau rheoli, atgyweirio a chynnal a chadw tai a gwella perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai;
- pennu dyfodol stoc tai y Cyngor drwy bleidlais tenantiaid a strategaeth i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

110 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd ym mhob un o'r blaenoriaethau hyn ond mae'n parhau i wynebu heriau sylweddol.

111 Roedd perfformiad y Cyngor o ran darparu tai fforddiadwy yn 2010-11 yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru, er yn is na'r targedau a osodwyd gan y Cyngor iddo'i hun. Yn ogystal â'i waith parhaus ei hun i ddarparu eiddo fforddiadwy yn y sir, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â chynghorau a phartneriaid eraill. Yn eu plith mae'r canlynol:

- Cydadolygiad o'r strategaeth dai leol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - a chynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar y cyd ym mis Tachwedd 2011.
- Prosiect 'Llwybrau Mynediad Cyffredin i Dai' yn cynnwys cynghorau Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam, yn ogystal â'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n weithredol yn yr ardal.
- Mae Prifysgol Glyndŵr wedi dechrau diweddaru'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar y cyd. Fe'i comisiynwyd ar y cyd â Chyngor Wrecsam.
- Mae cofrestr dai ranbarthol a pholisi dyrannu cyffredin yn cael eu datblygu ac ar hyn o bryd mae'r gwaith yn cynnwys cynghorau Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy yn ogystal â sawl landlord cymdeithasol cofrestredig.
- Gweinyddwr caffael benthyciadau-prosiect ar y cyd yw hwn sy'n cynnwys cynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Gwynedd.

112 Gwnaed cynnydd mewn perthynas â gwella sawl agwedd ar wasanaethau landlordiaid yn cynnwys delio ag atgyweiriadau brys. Fodd bynnag, mae perfformiad o ran mynd i'r afael ag eiddo gwag, ôl-ddyledion rhent ac atgyweiriadau nad ydynt ar frys yn dal i fod islaw lefelau disgwyliedig.

113 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd parhaus tuag at bleidlais ar drosglwyddo stoc tai. Er bod y Cyngor ar ei hôl hi, ar ddiwedd mis Tachwedd 2011 cytunodd y Cyngor i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar 'gam 1' gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2012. Yn dibynnu ar yr ymgynghoriad, bwriedir i'r bleidlais gael ei chynnal ym mis Chwefror a mis Mawrth 2012. Bydd hyn yn gam pwysig o ran gwella

ansawdd y stoc tai.

114 Bu gwaith ymgynghori da gyda thenantiaid ar eu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Yn ogystal â chytuno arnynt, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer £49 miliwn o wariant ar ei stoc tai yn y pum mlynedd o 2013 os bydd tenantiaid yn penderfynu peidio â throsglwyddo i Dai Dyfrdwy, sef landlord cymdeithasol cofrestredig nid er elw newydd. Petai tenantiaid yn penderfynu trosglwyddo i Dai Dyfrdwy, byddai £166 miliwn yn cael ei wario ar y stoc yn yr un cyfnod.

115 Er gwaetha'r gwaith hwn, mae'r Cyngor yn rhagamcanu mai dim ond 26 o'i dai fydd yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn llawn erbyn 2020. Mae Sir y Fflint yn un o ddim ond tri chyngor yng Nghymru sy'n rhagamcanu na fydd ei stoc yn cyrraedd y safon yn llawn erbyn diwedd y degawd.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud peth cynnydd o ran y cymorth y gall ei gynnig i bobl sy'n agored i dlodi. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau mawr o ran darparu'r gwasanaethau hyn, a gellid gwneud mwy i gydgysylltu gweithgareddau**

116 Mae rhan o amcan gwella'r Cyngor i amddiffyn a datblygu'r economi leol a rhanbarthol, bod yn sir ffyniannus a darparu cymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n agored i dlodi yn gysylltiedig â blaenoriaeth 2010-11 i leihau tlodi eithafol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol i roi cyngor a sicrhau bod mwy o bobl yn cael y budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt.

117 Yn ôl *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor, statws 'oren' sydd gan y gwaith hwn sy'n golygu bod cynnydd yn cael ei wneud ond bod y Cyngor ar ei hôl hi. Mae'n cyfeirio at y Cyngor a'i sefydliadau partner yn datblygu gwaith drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y thema 'mwyafu incwm' i bobl.

118 Mae gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn anelu at wella'r Cyngor ar les a roddir gan wahanol asiantaethau a darparu gwasanaeth mwy cydgysylltiedig. Dechreuwyd darparu gwasanaeth peilot ym mis Hydref 2011 a defnyddir dull 'atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau'. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau llwyddiant wedi cael eu pennu ar gyfer y gwaith hwn eto.

119 Mae Gwasanaeth Gwaith Achos Cyngor ar Les y Cyngor ei hun wedi helpu mwy o bobl. Yn ystod hanner cyntaf 2011-12, helpodd y gwasanaeth drigolion Sir y Fflint gyda hawliadau a thribiwnlysoedd budd-daliadau gwerth £1.3 miliwn. Gwnaeth y Gwasanaeth Gweithwyr Achos Cyngor Ariannol hefyd helpu mwy o bobl a oedd yn wynebu'r posibilrwydd o fod yn ddigartref o ganlyniad i ddyledion.

120 Mae perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu'r dreth gyngor a budd-daliadau tai yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith y Cyngor i helpu pobl mewn angen a lleihau tlodi. Yn 2010, cododd Swyddfa Archwilio Cymru bryderon mawr ynghylch y broses o weinyddu budd-daliadau a'r hawliadau grant a wnaed ar gyfer adennill budd-daliadau. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Tîm Perfformiad Pensiynau i adolygu a symleiddio prosesau. Gwnaed cynnydd da a nododd gwaith archwilio ar hawliadau am gymhorthdal o ran budd-dal tai a’r dreth gyngor fod llawer llai o broblemau. Bu gwelliant sylweddol ym mherfformiad y gwasanaeth budd-daliadau.

121 Mae'r Cyngor wedi nodi y bydd y diwygiadau lles cenedlaethol arfaethedig yn peri her fawr arall i'w ymdrechion i leihau tlodi. Mae

*Cynllun Gwella 2011-12* y Cyngor wedi newid ffocws yr agwedd 'tlodi' ar yr amcan gwella i gynnwys rheoli diwygiadau lles. Erbyn hyn mae'r prif is-amcanion fel a ganlyn:

- gweithredu'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf;
- gweithio ar gamau gweithredu y gall Gogledd Cymru eu cymryd i ddatblygu methodoleg a rennir i bennu ffioedd gofal yn y dyfodol;
- llunio strategaeth i reoli effeithiau diwygiadau lles (ar y cyd â phrosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol).

122 Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu disgrifio fel 'canlyniadau' sy'n anghywir oherwydd camau gweithredu neu dasgau ydynt. Ni chytunwyd ar fesurau canlyniadau priodol eto.

123 Mae'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael ei gweithredu ledled Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, gan gynnig adnodd ychwanegol i wasanaethau cefnogi teuluoedd a modelau ymyrryd newydd ac mae'n datblygu. Ei phrif ffocws yw cefnogi teuluoedd drwy ymyrryd ar y camau atal a diogelu. Mae'r rhaglen yn anelu at lywio gwelliannau i gynllun a darpariaeth cymorth i deuluoedd a, thrwy wneud hynny, leihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth ac felly sydd angen ymyriadau mwy dwys a chostus.

124 Nododd *Adroddiad Gwella Blynyddol* yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2009-10, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, na wnaed digon i ddwyn ynghyd y ffyrdd niferus y gall y Cyngor gyfrannu at fynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn broblem o hyd. Fodd bynnag, bydd y Strategaeth Diwygio Lles arfaethedig yn cysylltu'r holl fentrau gwrth-dlodi amrywiol y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn eu rheoli ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth yn anelu at ddefnyddio dull strategol a hirdymor o hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar y diwygiadau lles a lliniaru'r agweddau negyddol arnynt ar gyfer trigolion Sir y Fflint, cymunedau lleol, darparwyr gwasanaethau a'r awdurdod lleol.

## Mae perfformiad disgyblion islaw'r lefelau disgwyliedig mewn rhai agweddau ar addysg tra bod safonau a rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn dda. Gwelir datblygiadau mawr mewn gwasanaethau hamdden a chwarae ond erys risgiau

125 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n helpu pobl i ddatblygu. Ar y cyfan, nodwyd bod perfformiad disgyblion islaw'r lefelau disgwyliedig mewn rhai agweddau ar addysg tra bod safonau a rhagolygon ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn dda. Gwelir datblygiadau mawr mewn gwasanaethau hamdden a chwarae ond erys risgiau.

126 Amcan gwella'r Cyngor yw sicrhau amrywiaeth fodern, uchel ei pherfformiad o gyfleoedd dysgu, diwylliannol, chwarae a hamdden i bobl o bob oedran gyda'n hysgolion, colegau a phartneriaid eraill. Yn ôl asesiad y Cyngor o'i berfformiad ar gyfer yr amcan hwn yn 2010-11, roedd yn dda. Rhoddwyd statws 'gwyrdd' i'r rhan fwyaf o'r is-amcanion, gan olygu bod targedau wedi cael eu cyflawni neu fod camau wedi cael eu cwblhau. Yr eithriadau oedd moderneiddio ysgolion cynradd (oren), moderneiddio ysgolion uwchradd (coch), y Strategaeth Hamdden (oren), a risgiau i hyfywedd Clwyd Theatr Cymru yn y dyfodol (oren).

127 Ym mis Hydref 2011, cynhaliodd Estyn arolygiad o wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, a cheir crynodeb o’i ganfyddiadau isod.

128 Dywedodd Estyn nad oedd aelodau etholedig wedi gweithio’n foddhaol i ad-drefnu ysgolion uwchradd, lleihau lleoedd gwag na defnyddio adnoddau’n well. Ym mis Rhagfyr 2011, cymeradwyodd y Cyngor yr opsiynau ar gyfer yr adolygiadau ardal o ddarpariaeth ysgolion uwchradd yn Nhreffynnon, Queensferry/Cei Connah a Bwcle/Mynydd Isa a'r Wyddgrug. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus, a ohiriwyd ym mis Awst 2011, yn ailddechrau ym mis Chwefror 2012.

129 Disgyblion yn Sir y Fflint a berfformiodd orau yng Nghymru o ran y gyfran a gafodd bum gradd TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg yn 2010 a 2011. Fodd bynnag, pan gaiff gwybodaeth gyd-destunol ei hystyried, megis cyfran y disgyblion sydd â’r hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae gormod o ysgolion yn perfformio’n waeth na’r disgwyl.

**Yn ei asesiad, dywed Estyn fod perfformiad disgyblion yn is na'r disgwyl mewn rhai agweddau ar addysg**

130 Mae Estyn wedi gwneud yr asesiad canlynol o berfformiad addysgol disgyblion:

- Pan ystyrir gwybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yn Sir y Fflint yn 2011 ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 1 (7 oed) ac yn unol â'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2 (11 oed). Yng nghyfnod allweddol 3 (14 oed), mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae tri chwarter yr ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint islaw'r cyfartaledd ac mae un rhan o dair yn y chwarter isaf o ran eu perfformiad. Bu gormod o ysgolion yn y chwarter isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dim digon yn y chwarter uchaf. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 (16 oed) uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer tri o'r pum mesur ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer y ddau arall.
- Mae Llywodraeth Cymru yn pennu disgwyliadau o ran perfformiad yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim. Dim ond un allan o'r naw meincnod disgwyliedig hyn y mae Sir y Fflint wedi'i gyflawni ar gyfer y tair blynedd hyd at 2010. Nid oes gwybodaeth feincnodi ar gyfer 2011 ar gael eto.
- Mae ffigurau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda.  Mae'r cyfraddau wedi parhau'n uchel dros y tair blynedd diwethaf a dyma'r cyfraddau uchaf yng Nghymru. Mae ffigurau presenoldeb mewn ysgolion cynradd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru er bod y duedd dros y tair blynedd diwethaf yn dangos dirywiad. Prin yw'r gwaharddiadau parhaol yn y rhan fwyaf o ysgolion yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae gormod o waharddiadau cyfnod penodol ac mae'r dysgwyr hyn yn colli gormod o ddiwrnodau ysgol.

**Barnodd Estyn fod y gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc a’u rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol**

131 Arolygwyd Sir y Fflint gan Estyn, sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, ym mis Hydref 2011. Barnodd yr arolygwyr fod gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- Ers 2007, mae perfformiad ysgolion Sir y Fflint wedi gwella ar gyfradd debyg i

weddill Cymru yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3. Yn 2011, roedd canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg, neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn 2010, gwellodd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gyflymach nag yng Nghymru yn gyffredinol ym mhedwar o'r pum prif ddangosydd.

- Ychydig iawn a gaiff eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol.
- Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaethau gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Tîm Troseddau Ieuenctid, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y rhwydwaith 14-19, ac awdurdodau cyfagos eraill.

Fodd bynnag:

- Mae safonau'n ddigonol ar y cyfan. Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 3, mae tri chwarter o ysgolion uwchradd Sir y Fflint dipyn yn is na'r cyfartaledd ac mae traean ohonynt yn y chwarter isaf ar gyfer y dangosydd pynciau craidd. Mae gormod o ysgolion wedi bod yn y 25 y cant isaf dros y ddwy flynedd diwethaf a dim digon o ysgolion yn y 25 y cant uchaf.
- Yn 2011 gwaethygodd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ar dri dangosydd.
- Yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na'r bwlch ledled Cymru.
- Nid yw'r awdurdod lleol yn perfformio'n unol â meincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru o'i gymharu ag awdurdodau tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 1 a 3. Mae'n perfformio'n unol â'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, dim ond unwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf y mae'r awdurdod wedi bodloni'r meincnodau disgwyliedig neu wedi rhagori arnynt. Mae hwn yn faes pwysig i'w wella.
- Mae amrywiaeth o feysydd yn y sector cynradd y mae angen eu gwella, gan gynnwys dirywiad o ran cyfraddau presenoldeb, ymddygiad, ansawdd a safonau a rheoli ariannol.
- Mae gormod o ysgolion yn destun rhyw fath o weithgarwch dilynol ar ôl cael eu harolygu gan Estyn, gan gynnwys un ysgol gynradd y dywedwyd bod angen iddi wneud gwelliant sylweddol ac un arall a gafodd ei gosod o dan fesurau arbennig.
- Nid yw aelodau etholedig wedi gweithio'n foddhaol i ad-drefnu ysgolion uwchradd, lleihau lleoedd gwag na defnyddio adnoddau'n well.

132 Barnodd yr arolygwyr fod gan yr awdurdod lleol ragolygon digonol ar gyfer gwelliant oherwydd:

- gwaethygodd safonau yn ystod 2011 ar gyfer tri dangosydd yng nghyfnod allweddol 4;
- yn aml, mae'r broses o wneud gwelliannau'n araf;
- nid yw'n glir sut y bydd yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r holl feysydd i'w gwella a nodir ganddo yn ei adroddiad hunanwerthuso;
- mae aelodau etholedig wedi bod yn amharod i weithredu'n strategol er mwyn diwallu anghenion a buddiannau plant a phobl ifanc, yn enwedig o ran eu strategaeth moderneiddio ysgolion uwchradd.

Fodd bynnag:

- mae uwch swyddogion wedi rhoi mentrau newydd ar waith yn ddiweddar i wella perfformiad plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n agored i niwed;
- mae'r awdurdod yn meithrin cydberthnasau gwaith da gyda phum awdurdod arall yng nghonsortia rhanbarthol Gogledd Cymru i sefydlu gwasanaeth effeithiolrwydd ysgolion rhanbarthol.

133 Er mwyn gwella, argymhellodd yr arolygwyr y dylai'r awdurdod:

- Wella safonau a pherfformiad er mwyn gostwng canran yr ysgolion sydd yn y 25 y cant isaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched.
- Gwella safon ac ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd drwy:
  - fynd i'r afael â'r dirywiad mewn cyfraddau presenoldeb;
  - lleihau nifer y disgyblion a gaiff eu gwahardd am gyfnod penodol;
  - lleihau balansau a diffygion ariannol ysgolion yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.
- Gwella'r ffordd y mae uwch swyddogion a phob aelod etholedig yn gweithio gyda'i gilydd i:
  - wella safonau ar gyfer pob dysgwr;
  - gwella gwaith hunanwerthuso ac adroddiadau i aelodau;
  - ad-drefnu ysgolion uwchradd, lleihau lleoedd gwag a defnyddio adnoddau'n well.
- Lleihau nifer y diwrnodau o addysg y bydd dysgwyr yn Sir y Fflint yn eu colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy ym mhob un o'i ysgolion uwchradd.
- Gwella'r trefniadau monitro ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i olrhain cynnydd plant a phobl ifanc yn effeithiol.
- Blaenoriaethu pob maes i'w wella a nodwyd yn yr hunanwerthusiad o wasanaethau addysg.

**Ym mis Ionawr 2011, nododd Estyn fod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 19 yn Sir y Fflint, a'r rhagolygon ar gyfer gwella, yn dda**

134 Cynhaliodd Estyn arolygiad ardal ar gyfer Sir y Fflint ym mis Ionawr 2011 a edrychodd ar y canlynol:

- ansawdd ac argaeledd disgrifiad penodol o addysg neu hyfforddiant ar gyfer y rheini sy'n 15 oed neu drosodd;
- y safonau a gyrhaeddwyd gan y rheini sy'n derbyn yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw;
- p'un a gaiff yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rheini sy'n darparu'r addysg a'r hyfforddiant hwnnw eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n cynnig gwerth am arian.

135 Nododd Estyn fod darpariaeth bresennol yr ardal o ran dysgu ar gyfer y dysgwyr hynny rhwng 14 a 19 oed yn Sir y Fflint yn dda am y rhesymau canlynol:

- cyrhaeddiad da i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed;
- lefelau uchel o gyfranogiad ymhlith dysgwyr, cyfraddau presenoldeb uchel a'r

gyfran uchel o bobl ifanc 16 oed sy'n parhau mewn addysg a hyfforddiant neu'n symud ymlaen i gyflogaeth;

- mwy o gydweithio rhwng ysgolion a sectorau eraill i ehangu'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr;
- gwaith partneriaeth da i ddarparu ystod eang o weithgareddau dysgu heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol;
- cymorth o ansawdd da i ddysgwyr, sydd wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion penodol ac sy'n rhoi cyngor da i ddysgwyr ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

136 Roedd rhagolygon yr ardal ar gyfer gwella yn dda am y rhesymau canlynol:

- ymrwymiad cryf gan bartneriaid a rhanddeiliaid i weithio mewn partneriaeth, a adeiledir ar sylfeini cadarn drwy waith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth;
- dealltwriaeth glir o'r heriau a wynebir ac ymrwymiad cryf i newid y patrwm presennol o ddarpariaeth ôl-16;
- hanes da o ddatblygu cydweithio rhwng darparwyr a sectorau;
- gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi'u datblygu'n dda, gan feithrin dealltwriaeth glir a chywir o berfformiad presennol a'r meysydd lle mae angen gwella;
- y ffordd y mae prosesau hunanwerthuso yn llywio'r gwaith o gynllunio gwelliannau.

137 Argymhellodd arolygwyr, er mwyn gwella, fod angen i'r awdurdod lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant gydweithio i gyflawni'r canlynol:

- rhesymoli'r ddarpariaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed er mwyn dileu dosbarthiadau bach a dyblygu diangen;
- sicrhau gwelliannau pellach o ran cyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn arbennig ôl-16;
- parhau i ehangu darpariaeth Gymraeg ôl-16 yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy a North Wales Training, a chynyddu lefelau cyfranogi, fel bod mwy o ddysgwyr yn parhau i ddysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-16;
- ehangu'r arfer da o ran sicrhau ansawdd darpariaeth gydweithredol ar draws pob darparwr;
- datblygu ymhellach y ffordd y mae'r rhwydwaith yn casglu ac yn defnyddio data a gwybodaeth arall yn ganolog i lywio gwaith cynllunio strategol a hwyluso'r broses o werthuso effaith a chynnydd.

**Gwelir datblygiadau mawr mewn agweddau ar chwarae, hamdden a diwylliant , ond erys rhai risgiau**

138 Gwneir cynnydd da o ran gwella cyfleusterau hamdden ond mae risgiau ariannol yn parhau. Mae Cytundeb Partneriaeth y Cyngor ag Alliance Leisure Services Ltd (darparwr gwasanaethau hamdden yn y sector preifat) yn arwain at gryn welliant o ran ansawdd cyfleusterau hamdden yn y sir. Caiff y gwelliannau eu hariannu drwy'r cynnydd mewn incwm sy'n deillio o'r defnydd cynyddol o'r canolfannau hamdden. Mae'r Cyngor a'i bartner wedi gweithio'n dda i gyflawni'r gwelliannau mewn cyfleusterau hamdden, a gwneir mwy o ddefnydd o Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, lle y cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith gwella.

139 Noda adroddiad perfformiad canol 2011-12 y Cyngor fod gorwariant o £180,000 i'w ddisgwyl mewn perthynas â Gwasanaethau

Hamdden yn ystod y flwyddyn. Ar y cyfan, gwnaed llai o ddefnydd o'r canolfannau hamdden (heb gynnwys y cyfleusterau dan do yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy sydd wedi cael eu hadnewyddu). Mewn tair canolfan, lleihaodd y Cyngor nifer y staff yn y dderbynfa er mwyn gwneud arbedion. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr drefnu sesiynau ymlaen llaw a gwelwyd y defnydd a wneir o'r canolfannau hyn yn lleihau'n fwy na'r cyfartaledd. Yn ôl asesiad y Cyngor, mae risg strategol newydd bellach ar gyfer 'cyllid refeniw - hamdden' sy'n cael statws 'coch'.

140 Mae ‘Tîm Chwaraeon Sir y Fflint' yn y Cyngor wedi cael ei gydnabod fel y tîm gorau o'i fath yng Nghymru - a'r gorau ond tri yn y DU yn haf/hydref 2011. Mae'r tîm yn darparu gweithgareddau a chyfleoedd chwaraeon a hamdden. Cyflawnwyd y camp nodedig hwn drwy gynllun achredu Quest, sef safon y diwydiant ar gyfer chwaraeon a hamdden yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

141 Mae'r Cyngor a phartneriaid eraill wedi cael arian grant gan y Loteri Fawr ar gyfer prosiect NEW Play. Bydd y prosiect yn darparu cyfleoedd chwarae peripatetig ar draws Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, gan dargedu 15 o gymunedau lle nad oes fawr ddim cyfleoedd chwarae dros gyfnod penodol o dair blynedd.

142 Cafodd *Strategaeth Chwarae* y Cyngor ei chymeradwyo ym mis Gorffennaf 2011, ond ni chaiff elfennau o'r strategaeth eu hariannu'n ddigonol. Mae'r Cyngor wedi nodi bod hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor yr hyn a ddarperir gan yr Uned Chwarae ar hyn o bryd mewn perygl, o ran cyfarpar chwarae sefydlog a gwaith chwarae cymunedol. Nid yw'r gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw flynyddol ar gyfer ardaloedd chwarae yn ddigonol o ran sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y safleoedd. Cytunwyd ar drefniadau arian cyfatebol ar gyfer 2011-12 gyda nifer o gynghorau tref a chymuned i ariannu'r gwaith o adnewyddu 18 o ardaloedd chwarae. Fodd bynnag, canran fechan o'r 178 o safleoedd yw hyn. Bydd goblygiadau difrifol o ran cyflawni gwaith chwarae cymunedol yn y dyfodol os daw arian Cymorth Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mawrth 2010.

143 Yn ystod 2010-11, cymeradwyodd y Cyngor adroddiad ar Clwyd Theatr Cymru, ynghyd â threfniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer y theatr a chynllun busnes ar gyfer 2011-12. Mae'r theatr sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael tua £1 filiwn bob blwyddyn gan y Cyngor, ynghyd ag arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae angen gwneud cryn dipyn o waith datblygu i gynnal a chadw adeilad y theatr ac, o ganlyniad i hyn, cytunwyd ar gofnod risg strategol newydd ar gyfer cofrestr risgiau'r Cyngor. Statws 'oren' a roddwyd i'r risg. Bydd astudiaeth o ddichonoldeb ar gyfer datblygu'r theatr yn cael ei gynnal.

## Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ac yn cyflawni gwelliannau er mwyn helpu i greu a chynnal sir ddiogel, ffyniannus a hyfryd

144 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n creu ac yn cynnal yr ardal fel man diogel, ffyniannus a hyfryd. Amcanion y Cyngor yw:

- gwneud ein cymunedau'n ddiogel a diogelu'r rheini sy'n agored i niwed, gan roi blaenoriaeth i grwpiau plant a phobl hŷn;
- amddiffyn a datblygu'r economi leol a rhanbarthol, bod yn sir ffyniannus a

darparu cymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n agored i dlodi;

- gwarchod, cynllunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy.

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran helpu i wneud cymunedau'n ddiogel**

145 Yn ôl asesiad y Cyngor, roedd ei gynnydd o ran gwneud cymunedau'n ddiogel yn 'dda'.

146 Mae cynnydd rhesymol yn cael ei wneud yn y rhan fwyaf o agweddau ar Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ac yn 2010-11 arolygodd y Cyngor pob busnes risg uchel lle'r oedd angen iddynt gael arolygiad fel rhan o'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys y pedwar categori arolygu - safonau masnach, hylendid bwyd, iechyd anifeiliaid ac iechyd a diogelwch.

147 Mae adroddiad monitro perfformiad canol 2011-12 y Cyngor yn awgrymu ei fod ar y trywydd iawn yn 2011-12 i gyflawni'r rhan fwyaf o'i dargedau, ar wahân i arolygiadau iechyd a diogelwch. Nodir mai'r rheswm dros berfformio ar lefel is o ran arolygiadau iechyd a diogelwch yw'r angen i gyflawni gwaith adweithiol a'r ffaith bod swyddi gwag o fewn y gwasanaeth wedi golygu bod llai o swyddogion ar gael i wneud y gwaith. Mae'r Cyngor wedi mynd ati i erlyn lle bo angen ac mae wedi erlyn yn llwyddiannus mewn perthynas â throseddau'n ymwneud â safonau masnach, iechyd anifeiliaid a niwsans sŵn.

148 Yn ddiweddar, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y Cyngor wedi gweithio gyda Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam i ddatblygu'r *Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2001-14* cyntaf ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam. Noda'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol strategol ar gyfer y ddwy ardal, ac adlewyrcha safbwyntiau trigolion yn y cymunedau.

149 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi bod yn cydweithio i gysoni'r cylchoedd cynllunio ar gyfer pob sefydliad ar faterion diogelwch cymunedol. Mae hyn yn helpu i dargedu adnoddau'n fwy effeithlon ac mae'n ymdrin â blaenoriaethau a rennir.

150 Yn gyffredinol, mae lefelau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gostwng yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae trigolion yn dal i boeni am droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r Cyngor hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu Bwrdd Cymunedau Diogelach rhanbarthol, a fydd yn allweddol o ran llunio polisi a strategaeth diogelwch cymunedol ranbarthol.

**Mae'r Cyngor yn chwarae rhan gadarnhaol ac effeithiol yn y gwaith o ddatblygu'r economi leol a rhanbarthol**

151 Yn ôl asesiad y Cyngor mae ei gynnydd yn 2010-11 o ran hybu'r economi yn dda.

152 Mae'r sir yn chwarae rhan bwysig yn strategol o ran economi Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr ac mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid datblygu economaidd. Mae'n bartner a berchir, ac mae wedi gallu chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o helpu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ymgysylltu â'r gymuned fusnes yn yr ardal.

153 Mae'r Bwrdd Gweithredol ac uwch swyddogion wedi dangos lefel uchel o ymgysylltu ac ymrwymiad i'r amcan o ddatblygu'r economi leol a rhanbarthol. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi cyfrannu at y penderfyniad i sefydlu parth menter newydd, sef Parth Twf Glannau Dyfrdwy, sy'n canolbwyntio ar weithgynhyrchu datblygedig o fis Ebrill 2012. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu rhaglen i sicrhau buddsoddiad a swyddi yn yr ardal. Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan flaenllaw ym Mhartneriaeth Adfywio Sir y Fflint ac yn nigwyddiadau *Wythnos Fusnes Sir y Fflint* a fu'n llwyddiant.

154 Mae cynlluniau trefi yn cael eu datblygu ar gyfer pob tref yn y sir ac mae'r *Cynllun Datblygu Gwledig* hefyd yn llywio prosiectau mewn ardaloedd gwledig. Cwblhawyd cynlluniau tref ar gyfer Bwcle a Shotton/Cei Connah.

155 Mae'r dirywiad economaidd yn cael effaith ar y sir gyda diweithdra cynyddol ymhlith pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed. Fodd bynnag, bydd buddsoddiadau mawr, megis Ffatri arfaethedig Airbus North gwerth £350 miliwn, yn parhau i greu gwaith yn yr ardal.

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran newid gwasanaethau er mwyn eu gwella i ddiogelu'r amgylchedd.**

156 Yn ôl ei asesiad, roedd perfformiad y Cyngor o ran ei amcan i warchod, cynllunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy yn dda.

157 Yn dilyn adolygiad o wasanaethau, mae'r Cyngor wedi datblygu gwasanaeth 'Gwasanaethau Stryd' integredig sy'n ddull cydgysylltiedig o weithio ac sy'n dwyn ynghyd nifer o wasanaethau sy'n bwysig i gynnal yr amgylchedd lleol. Mae gan y fenter hon y potensial i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid llawer gwell. Ym mis Medi 2011, gwrthododd pleidlais gan aelodau undebau llafur gynigion i roi'r gwasanaeth ar waith, ac mae trafodaethau yn cael eu cynnal i ddatrys y materion. Bwriad y Cyngor yw gweld y gwasanaeth newydd yn mynd yn 'fyw' ar ddechrau 2012 a gefnogir gan ganolfan cyswllt cwsmeriaid newydd.

158 Awgryma data ar gyfer 2010-11 fod perfformiad y Cyngor yn wael o ran canran y gwastraff trefol a ailgylchwyd, yn dda o ran canran y gwastraff a baratowyd i'w ailddefnyddio, ac yn agos at y cyfartaledd ar gyfer mesurau eraill. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno newidiadau i'w drefniadau casglu gwastraff domestig, sydd â'r nod o wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bu rhai problemau cychwynnol o ran sicrhau bod trigolion yn deall ac yn derbyn y gwasanaeth newydd. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y newidiadau ar lefelau ailgylchu a dangosyddion eraill o ran effeithiolrwydd y gwasanaeth.

159 Mae'r Cyngor yn parhau i arwain Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a cheisio atebion hirdymor i reoli gwastraff.

160 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Unedol a bydd yn dechrau gweithio'n fuan ar y Cynllun Datblygu Lleol ar ôl i'w raglen gyflawni gael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

# Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei drefniadau monitro perfformiad ond erys gwendidau o ran mesur canlyniadau, dibynadwyedd gwybodaeth ac mewn rhai agweddau ar adrodd a gwerthuso

161 Mae'r adran hon yn ystyried pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwerthuso ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ynghyd â'i drefniadau i gyflawni gwelliannau. Gwelsom fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei drefniadau monitro perfformiad ond erys gwendidau o ran mesur canlyniadau, dibynadwyedd gwybodaeth ac mewn rhai agweddau ar adrodd a gwerthuso.

## Mae'r diffyg mesurau llwyddiant seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer rhai amcanion a gwendidau o ran dibynadwyedd data yn golygu bod trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn fwy gwan

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran datblygu ei drefniadau ar gyfer hunanasesu a chyflwyno adroddiadau ar ei amcanion gwella ond erys gwendidau**

162 Mae'n ofynnol i gynghorau yng Nghymru gynnal hunanasesiadau drwy nifer o adroddiadau penodol yn ogystal â'r broses barhaus o fonitro a rheoli perfformiad. Ymhlith yr hunanasesiadau penodol mae'r canlynol:

- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad o dan y Mesur;
- adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol;
- yr adolygiad o drefniadau llywodraethu sy'n cyfrannu at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- hunanwerthusiadau sy'n ofynnol ar gyfer arolygiadau rheoliadol megis Estyn.

163 Cymeradwyodd y Cyngor ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* ar 26 Hydref 2011 ac fe'i cyhoeddwyd ar ei wefan ar ddiwedd mis Tachwedd 2011. Mae'r adroddiad:

- yn cynnwys asesiad o berfformiad o dan y 10 amcan gwella ar gyfer 2011-12 ac mae'n dangos sut maent yn ymwneud â'r 40 o flaenoriaethau ar gyfer 2010-11;
- yn dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- yn cyfeirio at ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol ac yn defnyddio set ehangach o wybodaeth i wneud ei asesiad;
- yn cynnwys gwybodaeth gymaradwy â blynyddoedd blaenorol ac awdurdodau eraill yng Nghymru.

164 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu, drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol fod y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliant o dan y Mesur, ar wahân i'r gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Hydref. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor wneud mwy i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, yn benodol o ran y canlynol:

- defnyddio gwybodaeth gymaradwy mewn ffordd fwy cyson – er y rhoddir canlyniadau cymaradwy ar gyfer pob Dangosydd Strategol Cenedlaethol a dangosydd craidd lle mae'r Cyngor ymhlith y tri sy'n perfformio orau neu waethaf, yn yr adrannau ar yr amcanion gwella, mae'n fwy tebygol y caiff gwybodaeth gymaradwy ei rhoi ar gyfer dangosyddion lle mae'r Cyngor yn perfformio'n dda na rhai eraill;

- rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae wedi ystyried p'un a ddylai gydweithredu a ph'un a yw hyn wedi cyflawni ei ganlyniadau bwriadedig;
- rhoi gwybodaeth gliriach am y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd yn sgîl ei asesiad.

165 Nid oedd y Cyngor wedi datblygu mesurau llwyddiant clir na fframwaith adrodd ar gyfer llawer o'r blaenoriaethau a fabwysiadwyd yn 2010 (nodir y blaenoriaethau hyn ynghyd â'r amcanion dilynol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2011-12 yn Atodiad 4). O ganlyniad, mae'r *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* wedi defnyddio amcanion gwella 2011-12 yn yr adroddiad tra'n dynodi pa flaenoriaethau o ran 2010-11 y maent yn gymwys iddynt. Mae'r Cyngor wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol am gamau gweithredu, dangosyddion a risgiau i ategu ei asesiad o berfformiad, ond nid yw'r rhain i gyd yn fesurau canlyniadau.

166 Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn hir ac nid yw'n hawdd dilyn rhai adrannau. Mae'r newidiadau i flaenoriaethau ac is-flaenoriaethau'r Cyngor hefyd wedi effeithio arno.

167 Mae'r Cyngor wedi datblygu system adrodd newydd sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella 2011-12. Bydd hyn yn darparu fframwaith cliriach ar gyfer ystyried cynnydd y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella a chyflwyno adroddiadau arno. I ategu hyn, mae angen i'r Cyngor gwblhau gwaith cyfredol i sicrhau bod y canlyniadau bwriadedig, nid dim ond camau gweithredu, yn glir ar gyfer pob amcan a bod y trefniadau o ran atebolrwydd hefyd yn glir.

168 Yn ogystal â threfniadau rheoli perfformiad rheolaidd, mae'r Cyngor yn gwneud gwaith hunanwerthuso penodol wrth baratoi'r datganiadau llywodraethu blynyddol, ei Adolygiad Perfformiad Blynyddol, a meysydd gwasanaeth penodol eraill gan gynnwys dysgu gydol oes a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ôl adolygiad Estyn o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 19 oed yn yr ardal (gweler paragraffau 134-137) roedd y ffordd y mae prosesau hunanwerthuso yn llywio'r gwaith o gynllunio gwelliant yn gryfder a oedd yn cyfrannu at y rhagolygon da ar gyfer gwelliant. Nododd hefyd fod y graddau y caiff cynghorwyr eu cynnwys yn y trefniadau hyn yn amrywio: bu rhai cynghorwyr yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2010-11; fodd bynnag, er yr ymgynghorwyd â'r Aelod Gweithredol dros Addysg ynglŷn â'r hunanwerthusiad a baratowyd ar gyfer arolygiad Estyn o wasanaethau addysg, ni gymeradwywyd ef yn ffurfiol gan y Bwrdd Gweithredol na'i ystyried gan y pwyllgor craffu perthnasol.

169 Yn gyffredinol, gwnaethom nodi fod hunanasesu yn dod yn rhan sefydledig o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, ac rydym yn canmol hyn. Mae'r Cyngor hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi hunanasesiadau cyrff partneriaeth. Mae'r broses hunanasesu yn datblygu ond bydd yn gwella unwaith y bydd mesurau llwyddiant clir, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, wedi'u pennu ar gyfer pob amcan.

## Mae trefniadau monitro a rheoli perfformiad wedi'u sefydlu ond gellid eu symleiddio

170 Mae gan y Cyngor fframwaith sefydledig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am berfformiad sy'n cynnwys:

- set gytûn o dargedau gwella allweddol;
- cytundeb ar ganlyniadau gyda Llywodraeth Cymru;
- amcanion gwella'r Cyngor;
- ei Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau, sy'n nodi 48 o risgiau sylweddol o ran arweinyddiaeth gymunedol, cyflawni amcanion y Cyngor a'i system lywodraethu;
- cynlluniau a thargedau cyfarwyddiaethau ac adrannau;
- gwybodaeth rheoli adnoddau, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, adnoddau dynol, gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am asedau.

171 Cyflwynir adroddiadau chwarterol i bwyllgorau trosolwg a chraffu sy'n cwmpasu'r meysydd hyn ac yn darparu asesiad rheoli. Mae'r adroddiadau hyn yn hirfaith.

172 Cyflwynir adroddiadau byrrach ac ar wahân ar 'eithriadau' i'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar feysydd lle mae perfformiad islaw'r lefelau disgwyliedig yn erbyn targedau gwella, ynghyd â'r diweddaraf ar yr asesiad strategol o'r gofrestr risgiau a heriau. Mae aelodau gweithredol hefyd yn cael gweld yr adroddiadau a gyflwynir i'r pwyllgorau craffu. O fis Ionawr 2012, mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r adroddiadau ychwanegol newydd ar gynnydd yn erbyn ei amcanion gwella. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol.

173 Dywedodd cynghorwyr wrthym fod ansawdd adroddiadau gwybodaeth wedi gwella ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r canlynol:

- roedd yr adroddiadau perfformiad chwarterol ar graffu yn rhy hir, yn cymryd gormod o amser i'w paratoi ac wedi cymryd 12 wythnos i'w cyflwyno;
- o ganlyniad i'r trefniadau roedd swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif yn hytrach na'r Bwrdd Gweithredol;
- roedd rhai anghysondebau a gwendidau yn y data a'r wybodaeth a gyflwynwyd (gweler isod).

174 Rhydd y gwaith o ddatblygu fframwaith adrodd diwygiedig sy'n canolbwyntio ar amcanion gwella'r Cyngor gyfle i symleiddio'r trefniadau adrodd gyda'r nod o wella amseroldeb, cysondeb a ffocws.

## Nodwyd gwendidau o ran cywirdeb peth data ar berfformiad

175 Gwelsom nad oedd cynghorwyr bob amser yn ymddiried yn y wybodaeth a gafwyd mewn adroddiadau ar berfformiad a bod gwendidau'n bodoli a oedd yn cwestiynu dibynadwyedd y data ar berfformiad. Ymhlith y rhain roedd y canlynol:

- Nododd ein harchwiliad o'r data ar gyfer DPCau 2010-11 fod angen amodi 6 allan o'r 24 o ddangosyddion a archwiliwyd. Mae hyn yn cyfateb i chwarter y wybodaeth bwysig am ddangosyddion cenedlaethol.
- Ym mis Gorffennaf 2011, cynhaliodd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor adolygiad o'r wybodaeth ar gyfer dangosyddion a ddiwygiwyd neu a amodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010. Nododd wallau a gwendidau sylweddol yn yr un grŵp o ddangosyddion yn 2010-11 ac, er bod systemau rheolaeth yn ddigonol, nid felly'r modd y gweithredwyd y rheolaethau. Gwnaed 10 argymhelliad pwysig ar gyfer gwella.
- Cyflwynodd y Cyngor ddata anghywir i AGGCC i ddechrau i ategu adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2010-11.
- Mae'r wybodaeth anghywir am staff yn y system adnoddau dynol electronig wedi effeithio ar ddibynadwyedd data adnoddau dynol.

176 Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod y data a ddefnyddir ac a gyflwynir yn ddibynadwy.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, i gyflwyno adroddiad sy'n tystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gwario tua £312.5 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,087 fesul preswylydd. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £28.3 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2010-11, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,115 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.18 y cant i £1,151 y flwyddyn ar gyfer 2011-12.

Mae 68.5 y cant o'r anheddau yn Sir y Fflint ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 70 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 22 o'r Blaid Lafur
- 19 o'r Gynghrair
- 9 o'r Blaid Geidwadol
- 9 Aelod Annibynnol Newydd
- 9 o Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol
- 2 nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw blaid

Y Cynghorydd Arnold Woolley yw'r Arweinydd.

Colin Everett yw'r Prif Weithredwr, a'r cyfarwyddwyr yw:

- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Carl Longland
- Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes – Ian Budd
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol – Neil Ayling

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir y Fflint yw:

- Sandy Mewies, Delyn, y Blaid Lafur
- Carl Sargeant, Alun a Glannau Dyfrdwy, y Blaid Lafur

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad yw:

- Llyr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir y Fflint yw:

- David Hanson, Delyn, y Blaid Lafur
- Mark Tami, Alun a Glannau Dyfrdwy, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NB. Ffôn: 01352 752121

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol y llythyr archwilio canlynol ar 30 Tachwedd 2011.

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir y Fflint**

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd hefyd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac, felly, mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir y Fflint â'i gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae lle i wella ei reolaethau ariannol mewn nifer o feysydd ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau cynllunio ariannol yn y dyfodol i'w helpu i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sy'n ei wynebu**

1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

3 Ar 29 Medi 2011, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Er bod fy marn yn ddiamod, gwneuthum gynnwys nodyn pwysleisio mater yn fy adroddiad yn ymwneud â datganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn. Rhoddwyd gwybod i aelodau am nifer o faterion a gododd wrth archwilio'r cyfrifon yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a chaiff rhagor o fanylion eu cynnwys yn ein hadroddiad manwl ym mis Rhagfyr.

4 O 2010/11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor.

5 Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio cyfrifon y Cyngor:

- Ni wnaeth y Cyngor roi ei bolisi cyfrifyddu ar waith yn gywir wrth roi gwerth ar ei stoc tai ac o ganlyniad cafwyd camddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon. O ganlyniad, cafodd gwerth llyfr y stoc ei leihau £127.766 miliwn.
- Tanseiliwyd cywirdeb y datganiadau ariannol am fod nifer o'r prif ddatganiadau yn cynnwys cofnodion mantoli.
- Roedd nifer o faterion cyflwyno cyffredinol a oedd yn ymwneud ag ansawdd y cyfrifon a'r cofnodion ategol.
- Er ein bod yn fodlon bod y Cyngor wedi neilltuo amcangyfrif cyfrifyddu rhesymol, yn ei ddatganiadau ariannol, i dalu am yr atebolrwydd posibl o ran cyflog cyfartal, mae angen i rai o'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gefnogi'r amcangyfrif gael eu hategu'n well gan ddata ffeithiol.

6 Nodwyd y materion ychwanegol canlynol mewn perthynas â chyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd:

- Addaswyd adroddiad yr archwilydd i dynnu sylw at natur buddsoddiadau ecwiti preifat a ddelir gan y Gronfa. Fel rhan o'i phortffolio buddsoddi, roedd gan y gronfa ddaliadau diwedd blwyddyn mewn buddsoddiadau ecwiti preifat gwerth £218.314 miliwn. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â gwerth buddsoddiadau o'r fath, sy'n deillio o'r ffaith nad oes marchnad hylifol, gall gwerth teg y buddsoddiadau hyn fod yn wahanol i'w gwerthoedd gwireddadwy. Gan y gallai'r gwahaniaeth fod yn un sylweddol, penderfynais dynnu sylw at yr ansicrwydd cynhenid.
- Nododd ein gwaith archwilio fod cryn oedi o ran prosesu pensiynau newydd sy'n arwain at oedi cyn talu cyfandaliadau a hawliadau pensiwn. O ganlyniad, roedd atebolrwydd cyfandaliadau yn y datganiadau ariannol drafft wedi'u tanddatgan £1.274 miliwn.

7 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig, ar ôl iddo fabwysiadu ei strategaeth ariannol, ond mae angen gwneud cryn dipyn o waith o hyd i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2012-13 a thu hwnt. Hefyd, nid yw'r holl bwysau wedi'u cynnwys yn llawn eto yn y rhagolygon i bennu graddau'r bwlch ariannu dros y tair blynedd nesaf.

- Mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint wedi'i strwythuro i gynnwys cymysgedd o brosiectau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy. Fodd bynnag, nid yw'r buddiannau ariannol wedi'u meintioli'n llawn na'u hintegreiddio yn y cynlluniau ariannol eto, gan bennu cyfraniad Dyfodol Sir y Fflint felly at gau'r bwlch ariannu yn y tymor canolig.

8 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2011.

9 Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

John Herniman
Cyfarwyddwr Grŵp

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

30 Tachwedd 2011

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint

## Amcanion gwella Cyngor Sir y Fflint

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cytunodd Bwrdd Gweithredol y Cyngor ar flaenoriaethau ar gyfer gwella'r Weinyddiaeth ym mis Mai 2010. Cafodd y 40 o flaenoriaethau a blaenoriaethau cyfarwyddiaeth eu grwpio o dan 10 o amcanion gwella yng *Nghynllun Gwella 2011-12* y Cyngor. Mae'r cynllun gwella ar gael ar wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk. Dangosir yr amcanion gwella a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn 2010 isod:

| Amcanion gwella 2011-12 | Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ym mis Mai 2010 |
|---|---|
| **1** Bod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost effeithiol drwy ein pedair strategaeth adnoddau - y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Pobl, y strategaeth rheoli asedau a'r Strategaeth TGCh - a sicrhau ar yr un pryd fod ein trethi a'n ffioedd a'n taliadau lleol yn deg ac yn fforddiadwy | • Hyrwyddo a chynnal enw da cadarnhaol a hyderus i'r Cyngor a'r Sir yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.<br>• Parhau i wneud newidiadau cynyddol o ran diwylliant, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, addasrwydd a pherfformiad y sefydliad yn gorfforaethol ac o ran cynllunio a darparu gwasanaethau.<br>• Datblygu a dilyn strategaeth ariannol tymor canolig a thymor hwy gadarn tra'n cynnal lefel fforddiadwy o dreth gyngor i drethdalwyr lleol.<br>• Cyflawni nodau ac amcanion y *Strategaeth Pobl* gyda phwyslais ar arferion rheoli pobl, rheoli perfformiad, rheoli presenoldeb a gweithio ystwyth.<br>• Gweithredu cynlluniau parhad busnes effeithiol er mwyn diogelu gwasanaethau allweddol.<br>• Gwneud y defnydd mwyaf o sylfaen tir ac asedau'r Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a sicrhau'r derbyniadau cyfalaf neu'r incwm mwyaf. |
| **2** Cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd gorau posibl o ran cost drwy gydweithio’n rhanbarthol i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol | • Ymdopi a ffynnu yn y blynyddoedd i ddod wrth wynebu llai o refeniw a chyfalaf mewn gwasanaethau cyhoeddus a pharhau i wella a pherfformio fel sefydliad gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Moderneiddio a gwella gweithdrefnau a pherfformiad y Cyngor mewn arferion caffael, er mwyn cyflawni nodau *Polisi Agor Drysau* Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer busnesau bach a chanolig a chyflawni targedau effeithlonrwydd y gellir eu troi'n arian parod ac na ellir eu troi'n arian parod. |

| Amcanion gwella 2011-12 | Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ym mis Mai 2010 |
|---|---|
| **3** Bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg gyda chyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth teg a chyfartal o dan Gytundeb Statws Sengl | • Cyflawni Cytundeb Statws Sengl cyfreithiol, derbyniol a fforddiadwy. |
| **4** Cyflawni'r safonau uchaf o ran gwasanaeth a gofal i gwsmeriaid drwy ein strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid | • Cyflawni lefelau uchel a chyson o wasanaethau cwsmeriaid, a datblygu gwasanaethau cyswllt cwsmeriaid personol ac o bell mwy hyblyg drwy strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid uchelgeisiol.<br>• Ad-drefnu a gwella'r Gwasanaethau Stryd. |
| **5** Gwneud ein cymunedau'n ddiogel a diogelu'r rheini sy'n agored i niwed, gan roi blaenoriaeth i grwpiau plant a phobl hŷn | • Ehangu effaith Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd er mwyn diogelu cymunedau ac iechyd y cyhoedd.<br>• Sicrhau lefel uwch o hyder ymhlith y cyhoedd yn niogelwch cymunedau mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill.<br>• Hyrwyddo cyfrifoldeb y dinesydd i gefnogi gwaith y gwasanaethau cyhoeddus e.e. atal troseddau, gorfodi, cyfranogi yn y gymuned a gweithredu yn y gymuned.<br>• Diogelu oedolion sy'n agored i niwed, pobl hŷn a phlant mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a phartneriaid eraill. |
| **6** Amddiffyn a datblygu'r economi leol arhanbarthol, bod yn Sir ffyniannus a darparu cymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n agored i dlodi | • Lleihau tlodi eithafol, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol i roi cyngor a sicrhau bod mwy o bobl yn cael y budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt, mewn partneriaeth ag eraill.<br>• Amddiffyn, hyrwyddo a datblygu'r economi leol drwy'r seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, y defnydd o dir ac asedau, a'r system addysgol.<br>• Datgan Ardal Adnewyddu Cymdogaeth gyntaf y Cyngor. |

| Amcanion gwella 2011-12 | Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ym mis Mai 2010 |
| --- | --- |
| **7** Hyrwyddo bywyd annibynnol, iach a boddhaus yn y gymuned gyda gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd cefnogol a phersonol o’r ansawdd uchaf | • Hyrwyddo bywyd annibynnol a gefnogir yn y gymuned drwy ofal cartref cynaliadwy a fforddiadwy, pecynnau cymorth gofal hyblyg, integreiddio gwasanaethau â phartneriaid eraill.<br>• Cynnig dewisiadau byw â chymorth hyblyg gan gynnwys darparu tai gofal ychwanegol estynedig.<br>• Cynllunio i ddiwallu anghenion gofal amrywiol a chymhleth cymdeithas gan gynnwys darparu gwasanaethau demensia yn fwy helaeth.<br>• Llunio polisi cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer Lleoedd y Tu Allan i'r Sir.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ehangu a gwella mynediad i ofal iechyd sylfaenol, buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a gwella ymhellach y gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **8** Bodloni’r angen am dai yn y Sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o wasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy a chartrefi o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a sector preifat | • Darparu tai fforddiadwy drwy'r strategaeth tai fforddiadwy.<br>• Gwneud gwelliant sylweddol a chyflym o ran ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad gwasanaethau rheoli, atgyweirio a chynnal a chadw tai a gwella perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai.<br>• Pennu dyfodol stoc tai y Cyngor drwy bleidlais tenantiaid a strategaeth i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. |

| Amcanion gwella 2011-12 | Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ym mis Mai 2010 |
| --- | --- |
| **9** Sicrhau amrywiaeth fodern, uchel ei pherfformiad o gyfleoedd dysgu, diwylliannol, chwarae a hamdden i bobl o bob oedrangyda'n hysgolion, ein colegau a phartneriaid eraill | • Datblygu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a fesul cam, cyflawni ei nodau a'i hamcanion tra'n sicrhau'r lefel uchaf posibl o 'wariant fesul disygbl'.<br>• Cyflawni nodau ac amcanion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.<br>• Cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth drawsnewid 14-19 a bod yn bartneriaid addysgol ac economaidd effeithiol gyda'r sector addysg uwch ac addysg bellach ac yn arbennig Goleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr.<br>• Datblygu ymhellach y cyfnod sylfaen ar gyfer yr oedran cyn ysgol.<br>• Cyflawni amcanion y cynllun gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cyngor mewn ymateb i Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Lleol.<br>• Cyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth Hamdden Actif.<br>• Cytuno ar gynllun i ailfodelu Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy a'i ariannu<br>• Cytuno ar gynllun i ailfodelu Clwyd Theatr Cymru ac ymgyrchu am gymorth ariannol cyfalaf cenedlaethol. |
| **10** Gwarchod, cynllunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy | • Cyflawni ein targedau ar gyfer lleihau gwastraff ac ailgylchu drwy'r strategaethau lleol a rhanbarthol, gan felly osgoi cosbau torddyletswydd, gyda lefelau uchel o gefnogaeth a chyfranogiad ymhlith y cyhoedd.<br>• mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) a gwneud cynnydd o ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar frys.<br>• gwneud gwelliannau pellach i ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad gwasanaethau rheoli datblygiadau cynllunio.<br>• gwella camau gorfodi'r Cyngor yn enwedig mewn gwasanaethau amgylcheddol, glendid 'tir y cyhoedd' ac wrth gynllunio rheolaethau datblygu.<br>• gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, cytuno ar strategaeth i leihau tagfeydd traffig ar gyfnewidfa'r A494/A55 a'r rhwydwaith ffyrdd Sirol cysylltiol fel rhan allweddol o'r cynlluniau trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol. |

## Hunanasesiad o berfformiad Cyngor Sir y Fflint

Gellir dod o hyd i hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* 2010-11 sydd ar gael yn www.siryfflint.gov.uk (chwilio am y cynllun gwella).

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk